



Briff Ymchwil **Crynodeb o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

- Crynodeb o Fil
- Crynodeb o newidadau Cyfnod 2
- Geirfa Gymraeg



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Michael Dauncey**

Dyddiad: **Tachwedd 2017**

Rhif Papur: **17-032**

Llun: **o COLORED PENCIL magazine gan flickr. Dan drwydded CreativeCommons**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : **0300 200 6309**

✉ : **Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru**

🌐 : **SeneddYmchwil.blog**

🐦 : **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

🌐 : **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na diffrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Nod y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yw cyflwyno system newydd, sy'n seiliedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn lle'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) presennol.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) statudol a chyffredinol i blant a phobl ifanc ag ADY. Byddai hyn yn rhoi terfyn ar y gwahaniaeth presennol rhwng ymyriadau a arweinir gan ysgol a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac yn integreiddio'r trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer disgyblion ysgol a myfyrwyr ôl-16 mewn colegau. Mae'r Bil hefyd yn ceisio gwella'r cydweithio rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau.

Yn y papur hwn ceir crynodeb o ddarpariaethau a chefnidir y Bil. Ceir hefyd drosolwg o'r Cod drafft y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i gynorthwyo'r broses graffu, a thynnir sylw at bwyntiau allweddol sy'n helpu i ddeall y Bil.

Diweddarwyd y papur i grynhoi canlyniad y gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1, y newidiadau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2 a'r ymrwymadau gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd cyn trafodion Cyfnod 3. Sylwer nad yw'r penodau cynharach sy'n rhoi crynodeb o'r Bil wedi cael eu diweddarau ers eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2017. Yn ogystal, mae cyfeiriadau yn y papur hwn at y 'Gweinidog' yn cyfeirio at Alun Davies, sef Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r Aelod a oedd yn Gyfrifol am y Bil trwy Gyfnodau 1 a 2 ac yn ystod Cyfnod 3 nes i'r newidiadau i'r Cabinet gael eu cyflwyno ar 3 Tachwedd 2017.



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
Ailwampio'n llwyr fodel 'nad yw bellach yn addas at ei ddiben'	1
Trosolwg o'r Bil.....	1
Statws presennol y Bil.....	2
2. Strwythur y Bil fel y'i cyflwynwyd yng Nghyfnod 1	2
Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil.....	3
3. Diben y Bil, fel y'i cyflwynwyd yng Nghyfnod 1, a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael.....	3
Tri amcan cyffredinol	3
Amcan cyffredinol A: Fframwaith deddfwriaethol unedig	4
Amcan cyffredinol B: Proses integredig a chydweithredol sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol.....	7
Amcan cyffredinol C: System deg a thryloyw.....	10
Nodau craidd trawsbynciol	12
4. Bil drafft 2015.....	13
5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, ar adeg cyflwyno'r Bil yng Nghyfnod 1.....	17
6. Ystyried yr opsiynau eraill a goblygiadau ariannol y Bil, fel y'i cyflwynwyd yng Nghyfnod 1	18
Asesu opsiynau.....	18
Goblygiadau ariannol.....	18
7. Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol.....	22
Darpariaethau perthnasol o fewn y Bil	23
Wyth egwyddor y Cod drafft.....	23
Rôl y Cydlynnydd ADY.....	24
Diffinio ADY	24
Nodi / Asesu ADY.....	26
Os penderfynir nad oes gan ddysgwr ADY	27
Cyfrifoldeb am CDU.....	28
Amserlenni	28
Cynnwys y cynlluniau datblygu unigol.....	29
Gwaith amlasiantaeth	29
Trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer system decach a mwy tryloyw.....	30
Penodau eraill yn y Cod drafft.....	31
8. Gweithredu	32
Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau pontio	32

Cyllid ychwanegol.....	33
9. Gwaith craffu Cyfnod 1.....	33
10. Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig	35
Trosolwg	35
Beth sydd wedi newid?	36
Digwyddiadau ar ôl cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.....	36
11. Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2.....	23
Canlyniad y gwelliannau.....	23
Newidiadau a wnaed i'r Bil.....	23
Ymrwymadau gan y Gweinidog	27
12. Y camau nesaf.....	29
13. Geirfa Gymraeg	30
Termau penodol i'r Bil.....	30
Y tri amcan cyffredinol.....	31
Y deg nod craidd	31
Termau cyffredinol.....	32
Rhagor o wybodaeth	32

1. Cyflwyniad

Ailwampio'n llwyr fodel 'nad yw bellach yn addas at ei ddiben'

Ar 12 Rhagfyr 2016, cyflwynwyd y **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** i'r Cynulliad gan Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd¹. Gwnaeth ddatganiad ysgrifenedig yr un pryd ag y cyhoeddwyd y Bil a gwnaeth hefyd **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol**. Ar ôl cyflwyno'r Bil, cynhaliwyd **cyfres o adolygiadau**, ymchwiliadau pwyllgor, cynigion polisi, cynlluniau peilot, ymgynghoriadau, Papur Gwyn a Bil drafft.² Mae rhanddeiliaid a theuluoedd wedi galw am newidiadau ers blynyddoedd lawer, a bernir ei bod yn **hen bryd** gwneud hynny bellach.

Ym mis Mehefin 2015, penderfynodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol, **ymgyngori ar Fil drafft**, gan arwain at oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o ymatebion rhanddeiliaid i'r penderfyniad hwn mai'r hyn a achosai'r pryder pennaf iddynt oedd gwneud y diwygiadau cywir a'u gweithredu'n effeithiol, yn hytrach na'r amser a gymerai'r broses. Mae agwedd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei hadlewyrchu yn sylwadau Alun Davies, y Gweinidog presennol, a ddywedodd ei fod yn awyddus i gael **'Deddf dda, ac nid Bil cyflym'**.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir fod angen newid. Cydnabu ers tro fod y system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) bresennol yn 'seiliedig ar **fodel a gyflwynwyd dros 30 mlynedd yn ôl**', ac **'nad yw bellach yn addas at ei ddiben.'** Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r Bil fel 'deddfwriaeth uchelgeisiol i greu dull newydd a dewr' a fydd yn **'gweddnewid'** yn llwyr y ffordd y mae anghenion dysgu plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu yng Nghymru.

Trosolwg o'r Bil

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer **fframwaith statudol newydd** er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o'u genedigaeth a thra byddant yn yr ysgol, ac, os ydynt dros yr oedran ysgol gorfodol, tra byddant yn derbyn addysg bellach hefyd. Bydd y Bil, a'r fframwaith newydd y mae'n ei greu, yn **disodli'r ddwy system ar wahân o ddeddfwriaeth a threfniadau** sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) **hyd at 16 oed** ac Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (AAD) **ar ôl 16 oed**.³

Caiff y **term newydd, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** ei ddefnyddio mewn fframwaith deddfwriaethol sengl ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed sy'n cael eu hadnabod yn rhai sydd â'r anghenion hynny. Mae'r diffiniad a ddefnyddir yn y Bil ar gyfer ADY fwy neu lai'r **un fath â'r diffiniad cyfreithiol cyfredol o AAA**.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol**. Yn y Cod hwnnw y bydd y rhan fwyaf o'r manylion am y modd y caiff asesiadau a phenderfyniadau am ddarpariaeth eu gwneud, er mai yn y Bil y bydd y fframwaith cyffredinol. **Rhoddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o'r Cod** (PDF 2.95MB) i'r Pwyllgor ar 14 Chwefror 2017, ac fe'i cyhoeddwyd ganddo i gynorthwyo rhanddeiliaid i gyfrannu at broses graffu Cyfnod 1.

¹ Mae cyfeiriadau yn y papur hwn at y 'Gweinidog' yn cyfeirio at Alun Davies, sef Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r Aelod a oedd yn Gyfrifol am y Bil trwy Gyfnodau 1 a 2 o'r broses ddeddfwriaethol ac yn ystod Cyfnod 3 nes cyflwyno'r newidiadau i'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2017.

² Ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil, **Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru** (Tachwedd 2016), mae crynodeb o'r hanes hwn o adolygu a diwygio, sy'n dyddio'n ôl i 2002.

³ Mae **Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru hefyd** yn cynnwys trosolwg o'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig presennol, ynghyd â rhywfaint o ddata am niferoedd y dysgwyr, ariannu a chyrhaeddiad.

Mae Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, wedi pwysleisio bod 'gwaith yn dal i gael ei wneud ar y drafft cyfredol' a'i fod wedi trefnu i'r Cod drafft fod ar gael **'at ddibenion enghreifftiol yn unig'** er mwyn helpu gyda'r broses o graffu ar y Bil. Dywedodd nad yw'r drafft hwn o'r Cod yn destun craffu ar hyn o bryd ond y bydd fersiwn ohono yn destun ymgynghoriad llawn os caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol. Mae rhagor o wybodaeth am y Cod ADY ym mhennod 7 o'r papur hwn.

Statws presennol y Bil

Ar adeg cyhoeddi'r papur hwn yn nechrau mis Tachwedd 2017, mae'r Bil yng Nghyfnod 3.

Mae Pennod 9 o'r papur hwn yn rhoi disgrifiad o waith craffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 1, ac mae Pennod 10 yn nodi'r prif bwyntiau sy'n deillio o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017.

Mae Pennod 11 yn rhoi manylion canlyniad y gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2. Gwaredwyd y rhain gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 4 Hydref a 12 Hydref 2017.

2. Strwythur y Bil fel y'i cyflwynwyd yng Nghyfnod 1

Mae'r bennod hon yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd. Nid yw rhifau'r adrannau (na'r cyfeiriadau at y Gweinidog) wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2 na'r newid Gweinidog. Dylid darllen fersiwn ddiweddaraf y Bil felly er mwyn cadarnhau'r cyfeiriadau at rifau'r adrannau.

Pan gafodd ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2015, roedd pedair Rhan i'r Bil, a'r rheiny'n cynnwys 88 adran ac un Atodlen.

– Mae **Rhan 1** (adran 1) yn rhoi **trosolwg o'r darpariaethau** yn y Bil.

– Mae **5 pennod yn Rhan 2** a dyma **ran mwyaf sylweddol** y Bil.

- Ym **mhennod 1** (adrannau 2-7) **diffinnir y termau allweddol**, sef Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, pennir y gofynion a'r weithdrefn ar gyfer llunio **Cod**, a nodir y ddyletswydd i **gynnwys a darparu gwybodaeth** i blant, pobl ifanc a rhieni.
- Ym **mhennod 2** (adrannau 8-40) mae darpariaethau ar gyfer **nodi ADY**, a pharatoi a chynnal **Cynlluniau Datblygu Unigol**.
- Mae **pennod 3** (adrannau 41-60) yn cynnwys **swyddogaethau atodol**, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chofrestru ysgolion annibynnol i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddisgyblion ag ADY, a'r rolau cydlynedd statudol newydd mewn ysgolion/ colegau a byrddau iechyd.
- Ym **mhennod 4** (adrannau 61-72) rhoddir dyletswyddau ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer **osgoi a datrys anghytundebau**, ac ar gyfer cael gwasanaethau eirioli annibynnol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer **apelau a cheisiadau** i Dribiwnlys Addysg Cymru.
- Mae **pennod 5** (adrannau 73-78) yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch **datgelu a defnyddio gwybodaeth**, ac ynghylch rhieni a phobl ifanc **nad oes ganddynt alluedd**.

– Mae **Rhan 3** (adrannau 79-81) yn **ailenwi** Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn **'Tribiwnlys Addysg Cymru'** ac yn pennu ei aelodaeth a'i drefniadau tâl a threuliau.

- Mae **rhan 4** (adrannau 82-88) yn gwneud darpariaethau **amrywiol a chyffredinol** gan gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol, gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, mynegai o ddiffiniadau cyffredinol a threfniadau ar gyfer dod â'r ddeddfwriaeth i rym.
- Mae **Atodlen 1** yn darparu ar gyfer **mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**.

Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Esboniadol (PDF 2.81MB)** i gyd-fynd â'r Bil. Mae'r Memorandwm yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n manylu ar y dewisiadau polisi a ystyriodd Llywodraeth Cymru a'r costau a'r manteision cysylltiedig o wneud y ddeddfwriaeth, a Nodiadau Esboniadol ar gyfer pob adran o'r Bil. Ar 7 Chwefror 2017 rhoddodd y **Gweinidog nodyn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PDF 1.82MB)** yn manylu ar ddiwygiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn deillio o fân wallau a ganfuwyd yn y fersiwn wreiddiol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil (PDF 410KB)**.

Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad **erthygl blog** yn rhoi trosolwg o'r Bil a gwybodaeth gefndir berthnasol.

Fel y nodwyd uchod, rhoddodd Llywodraeth Cymru **fersiwn ddrafft o'r Cod ADY (PDF 2.95MB)** i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac mae'r Pwyllgor wedi ei chyhoeddi er mwyn cynorthwyo'r gwaith o graffu ar y Bil.

3. Diben y Bil, fel y'i cyflwynwyd yng Nghyfnod 1, a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael

Mae'r bennod hon yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd. Nid yw rhifau'r adrannau (na'r cyfeiriadau at y Gweinidog) wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2 na'r newid Gweinidog. Dylid darllen fersiwn ddiweddaraf y Bil felly er mwyn cadarnhau'r cyfeiriadau at rifau'r adrannau.

Mae Llywodraeth Cymru yn fframio diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo'i chael o fewn cyd-destun tri amcan cyffredinol a deg nod craidd. Felly, mae'r wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) ynghylch diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddi'i chael wedi'i strwythuro o amgylch y deg nod craidd (paragraffau 3.5-3.16 a 3.79-3.136 o'r fersiwn a gyhoeddwyd pan gyflwynwyd y Bil).

Tri amcan cyffredinol

Tri amcan cyffredinol Llywodraeth Cymru yw (eiddo'r awdur hwn yw'r sylwadau mewn italig a'u diben yw cynnig esboniad manylach):

- a) **Fframwaith deddfwriaethol unedig** ar gyfer cefnogi pob plentyn ag ADY sydd o oedran ysgol gorfodol neu'n iau a phob person ifanc sydd ag ADY sydd mewn ysgol neu addysg bellach (AB); (*yn hytrach na dwy system ar wahân, sef AAA hyd at 16 oed ac AAD ar ôl 16 oed, sy'n ddarostyngedig i ddau ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth*);
- b) Proses **integredig a chydweithredol** o asesu, cynllunio a monitro ac ymyriadau **cynnar, amserol ac effeithiol** (*gan gynnwys dyletswyddau ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY drwy baratoi Cynllun Datblygu Unigol*);

- c) **System deg a thryloyw** ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau (*gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau, gan adolygu system y barnodd adolygiadau blaenorol ei bod yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn achosi gwrthdaro*).

Amcan cyffredinol A: Fframwaith deddfwriaethol unedig

Yn y papur briffio hwn cyflwynir y deg nod craidd drwy eu neilltuo i un o'r tri amcan cyffredinol fel ffordd o esbonio diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo'i chael. (Nodwch mai trefn yr awdur ei hun yw'r rhifau 1-10 a roddwyd i'r nodau craidd er mwyn eu strwythuro o fewn y tri amcan cyffredinol. Nid fel hyn y cawsant eu rhestru ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru.)

Nod craidd 1: Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r Bil yn cyflwyno term newydd, sef Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), **yn lle'r termau presennol** Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (AAD). I raddau helaeth yn achos AAA, byddai hyn yn **sefydlu yn y gyfraith derm sydd eisoes yn gymharol gyffredin** ledled Cymru. Mae'r term ADY eisoes wedi cael ei ddefnyddio'n ymarferol ac yn nhermau polisi ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau diwygiedig *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* ym mis Tachwedd 2006, a ddilynodd argymhelliaid Pwyllgor y Cynulliad yn ystod yr Ail Gynulliad.

Yr **un diffiniad sydd yn y Bil ar gyfer ADY â'r un presennol ar gyfer AAA**. I raddau sylweddol mae'r diffiniad hwn hefyd yr un fath â'r diffiniad presennol o AAD yn y cyfnod ôl-16.

Mewn gwirionedd, mae dau gam i'r diffiniad yn y Bil; yn y lle cyntaf, a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster neu anabledd dysgu, ac yn ail a yw'r anhawster neu'r anabledd dysgu hwnnw yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol? Os felly, yna mae gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

O dan adran 2 o'r Bil, mae gan blentyn neu berson ifanc⁴ anhawster dysgu neu anabledd:

- (a) os yw'n cael **anhawster sylweddol fwy** i ddysgu na'r **mwyafrif** o'r rhai eraill sydd o'r un oedran; neu
- (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion *Deddf Cydraddoldeb 2010* (p.15)⁵ sy'n ei **atal neu'n ei llesteirio** rhag **defnyddio cyfleusterau addysg** neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach. [fy mwyslais i]

Fel ar hyn o bryd, os yw'r **iaith y mae person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith sy'n cael ei defnyddio gartref**, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd. Hefyd, ni fydd person yn cael ei ystyried yn berson ag ADY pe gellid mynd i'r afael â'i ddiffyg cynnydd neu anawsterau drwy **addysgu gwahaniaethol rheolaidd**.

Yn ogystal, **nid yw'r diffiniad yn y Bil yn cwmpasu anghenion meddygol** megis diabetes, oni bai eu bod yn achosi i'r dysgwr gael anhawster dysgu sylweddol neu'n llesteirio ei allu i fanteisio ar yr addysg neu'r hyfforddiant sydd ar gael yn gyffredinol. Mae pennod 6 o'r Cod drafft yn darparu canllawiau i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch y diffiniad o ADY a phwysigrwydd addysgu

⁴ Ystyr 'plentyn' yn y Bil yw person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac ystyr 'person ifanc' yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed.

⁵ Ers y Bil drafft, mae Llywodraeth Cymru wedi mewnosod 'at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p.15)' ar ôl y cyfeiriad at anabledd o fewn y diffiniad o ADY. Cafodd y diffiniad o anabledd ei ddiweddarau gan Ddeddf 2010 ac mae'r ychwanegiad hwn yn debygol o fod yn fuddiol er mwyn cael diffiniad clir o anabledd yn y Bil.

gwahaniaethol. (Gweler pennod 7 o'r papur hwn am drafodaeth fanylach.) Ym mis Mawrth 2017, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd ar reoli anghenion gofal iechyd mewn ysgolion.⁶

Y cam nesaf at nodi ADY yw penderfynu a yw anhawster dysgu neu anabledd y plentyn neu'r person ifanc yn gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae Adran 3 yn diffinio **darpariaeth ddysgu ychwanegol** yn yr un termau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer darpariaeth addysgol arbennig:

- Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol” i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n **ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn**, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir, mewn colegau prif ffrwd, neu mewn mannau lle y darperir addysg feithrin;
- Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol” i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath [oherwydd ni fyddai plentyn o'r oed yma fel arfer yn cael darpariaeth addysgol] [fy mhwyslais i].

Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai'r **un nifer o ddysgwyr** yn cael eu hystyried yn bersonau ag ADY â'r nifer sydd ag AAA a AAD ar hyn o bryd, oherwydd defnyddir yr un diffiniadau. Fodd bynnag, mae'n credu y byddai defnyddio'r un term ar gyfer pob dysgwr o dan 25 oed yn sicrhau **mwyr o degwch** ac yn ategu **cydlynad** y system newydd. Mae hefyd o'r farn y bydd y term sydd newydd ei sefydlu, ADY, yn lleihau stigma ac yn dangos y **cefnir yn llwyr** ar system y mae angen ei diwygio'n sylfaenol.

Nod craidd 2: Ystod oedran 0 i 25

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer **un system newydd ar gyfer ADY** ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n iau nag 16 oed yn ogystal â'r rhai dros 16 oed, gan ddisodli'r systemau AAA ac AAD presennol. Mae adran 9 yn rhoi'r un ddyletswydd ar gyrff llywodraethu'r ddwy ysgol a sefydliadau addysg bellach i benderfynu a oes gan ddisgyblion/myfyrwyr ADY pan fo'n cael ei dwyn i'w sylw neu pan fo'n ymddangos iddynt fel arall y gall fod ganddynt ADY. Os yw corff llywodraethu ysgol neu sefydliadau addysg bellach yn penderfynu bod gan ddisgybl/myfyriwr ADY, mae adran 10 o'r Bil ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar eu cyfer. Felly, byddai gan bob dysgwr ag ADY **yr un math o gynllun statudol ni waeth beth yw eu hoedran** neu pa un a ydynt mewn ysgol, mewn chweched dosbarth ysgol neu mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd hyn yn rhoi dysgwyr mewn addysg bellach sydd ar hyn o bryd â Chynlluniau Dysgu a Sgiliau ar wahân ar dir **mwyr cyfartal** â'u cymheiriaid yn yr ysgol. Mae hefyd yn dweud y bydd yn **gwella'r pontio** rhwng addysg yn yr ysgol ac addysg ôl-16.

Newid sylweddol arall o dan y Bil, sydd wedi'i fwriadu i wneud y broses bontio yn fwy effeithiol, yw **trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth arbenigol ôl-16 oddi wrth Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol**. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd hyn yn annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio i gynllunio a gwneud darpariaeth, yn ogystal â chymell awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer yr unigolyn y tu hwnt i 16 oed mewn ffordd nad ydynt yn gorfod ei wneud ar hyn o bryd.

Nod craidd 3: Cynllun unedig

Yn union fel mae'r Bil yn darparu ar gyfer yr un math o gynllun (CDU) ar gyfer dysgwyr o bob oed sy'n iau na 25, mae hefyd yn darparu ar gyfer **yr un math o gynllun ar gyfer pob dysgwr ag ADY ni waeth beth yw difrifoldeb yr anghenion hynny**. O dan y Bil, ni fyddai'r gwahaniaeth presennol

⁶I gael gwybodaeth gefndir, gweler yr erthygl blog, *Diwallu anghenion gofal iechyd plant a phobl ifanc mewn ysgolion. A oes angen newid y gyfraith yng Nghymru?*, Ionawr 2017.

rhwng datganiadau, a *Gweithredu gan yr Ysgol* neu *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* yn bodoli mwyach. Yn lle hynny byddai pob dysgwr ag ADY yn cael CDU statudol, ac felly hefyd pob dysgwr ag ADY rhwng 0 a 25 oed (lle mae pobl ifanc 16-25 oed mewn chweched dosbarth ysgolion neu mewn addysg bellach).

Mae adran 8 yn diffinio CDU fel **dogfen sy'n disgrifio ADY person a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol** sydd ei hangen ar y person hwnnw. Mae pennod 10 o'r Cod drafft yn darparu canllawiau statudol i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol ar baratoi CDU, tra bod pennod 11 yn disgrifio'r hyn y mae'n rhaid iddo'i gynnwys.

Yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r buddiannau posibl o gael cynllun unedig ar gyfer pob gradd o ADY, fel a ganlyn:

*Effaith y darpariaethau hyn fydd **cael gwared ar yr anghysondebau a'r annhegwch** sy'n deillio o'r categorïau statudol ac anstatudol presennol o AAA, a'r gwahanol systemau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Trwy gyflwyno cynllun unigol i gwmpasu sbectrwm eang o angen, bydd y system newydd yn **fwy hyblyg ac yn gallu ymateb yn well** gan y bydd yn haws addasu CDUau dros amser er mwyn adlewyrchu unrhyw newid o ran anghenion neu amgylchiadau. Bydd hefyd yn **cael gwared ar yr ansicrwydd** ynghylch pryd y dylai datganiad gael ei wneud ac ar gyfer pwy y dylai gael ei wneud a'r ansicrwydd sy'n deillio o hyn. Bydd hefyd yn **sicrhau dilyniant** i ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol i addysg bellach. (paragraff 3.97) [fy mhwyslais i]*

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch y **posibilrwydd y gallai'r gefnogaeth wanhau** ar gyfer yr anghenion mwyaf difrifol a chymhleth (fel arfer y rhai sydd â datganiadau) os bydd pob dysgwr ag ADY yn cael yr un math o gynllun statudol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i **wahaniaethu** rhwng yr **achosion mwyaf difrifol a chymhleth**, lle bydd **awdurdodau lleol yn gyfrifol** am gynnal y CDU, a'r rhan fwyaf o achosion lle mae'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn gyfrifol am gynnal y CDU. Yn ystod gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil drafft, dywedodd **Llywodraeth Cymru** (PDF 262KB) ei bod yn disgwyl i'r **cydbwysedd** rhwng nifer y dysgwyr sydd â CDU a gaiff ei gynnal gan ysgolion ac awdurdodau lleol fod **'yn debyg iawn'** i'r cydbwysedd presennol rhwng dysgwyr a gaiff eu cefnogi drwy *Weithredu gan yr Ysgol* neu *Weithredu gan yr Ysgol a Mwy* (88 y cant) a'r rhai sydd â datganiad (12 y cant).

Cyfrifoldeb pwy: Cyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol?

Nid yw'r ddyletswydd a osodir gan adran 10 ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach i baratoi a chynnal CDU ar gyfer dysgwyr ag ADY yn gymwys os yw'r corff llywodraethu o'r farn bod ADY y dysgwr **y tu hwnt i'w allu i'w hasesu'n ddigonol neu ddarparu ar eu cyfer** (ni all bennu'n ddigonol) neu fod galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol **na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu** ei sicrhau. Os felly, caiff yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach **gyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol** i asesu ADY y dysgwr ac wedyn sicrhau unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol angenrheidiol.

Mae'r gofynion yn adrannau 11 a 12 ar awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan ddysgwyr ADY ac yna paratoi a chynnal CDU yn debyg i'r gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach o dan adrannau 9 a 10. Y ddarpariaeth berthnasol yw bod yn rhaid i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol wneud hynny 'pan fo'n cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall' y gall fod gan ddysgwr ADY. Yr **eithriadau** yw:

– Pan fo'r dysgwr dros oedran ysgol gorfodol (ac felly'n cael ei ystyried yn **'berson ifanc'** ac nid 'plentyn') ac **nad yw'n rhoi ei ganiatâd**;

- Pan fo'r corff llywodraethu/awdurdod lleol wedi **asesu'r plentyn neu'r person ifanc eisoes** a'i fod yn fodlon nad yw ei anghenion wedi newid yn sylweddol ers hynny, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad;
- Yn achos corff llywodraethu, pan fydd yn ystyried bod angen iddo **atgyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol**; neu
- Yn achos awdurdod lleol, pan fydd wedi'i fodloni y gall yr achos **gael ei ystyried gan gorff llywodraethu a'i fod yn cael ei ystyried ganddo**.

Roedd rhanddeiliaid, ac wedi hynny y Pwyllgor blaenorol wrth iddo **graffu cyn deddfu ar y Bil drafft**, wedi tynnu sylw at y potensial ar gyfer **amwysedd a chynnen** mewn amgylchiadau pan dybir mai cyfrifoldeb corff llywodraethu neu awdurdod lleol yw asesu a darparu. Mae paragraff 9.29 o'r Cod drafft yn rhoi rhai enghreifftiau o amgylchiadau pan na fyddai'n rhesymol i gorff llywodraethu ysgol neu goleg sicrhau darpariaeth. (Gweler pennod 7 o'r papur hwn am drafodaeth fanylach.)

Hawliau teuluoedd i ofyn i awdurdodau lleol ymyrryd

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth fel y gall plentyn, person ifanc, neu riant (yn achos plentyn nad yw dros yr oedran ysgol gorfodol) **ofyn i awdurdod lleol ymyrryd ac ailystyried** penderfyniadau a'r ddarpariaeth a wnaed gan ysgolion neu sefydliadau addysg bellach ynghylch ADY. Rhaid i'r awdurdod lleol **gydymffurfio** â chais o'r fath oni bai ei fod eisoes wedi'i ystyried achos y dysgwr ac **nad oes dim perthnasol wedi newid** ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd a fyddai'n effeithio ar ei benderfyniad. Gweler isod grynodedb o'r ffyrdd y gall dysgwr neu ei rieni ofyn i awdurdod lleol ymyrryd:

- Mae adran 24 yn galluogi awdurdodau lleol i ailystyried penderfyniad ysgol ynghylch **a oes gan ddysgwr ADY** (adran 9). Fodd bynnag, nid yw hyn cynnwys penderfyniadau a wneir gan sefydliadau addysg bellach.
- O dan adran 25, caiff awdurdodau lleol ailystyried **cynnwys CDU** y mae corff llywodraethu ysgol wedi'i roi ar waith (adran 10). Nid yw hyn yn cynnwys dysgwyr ag ADY mewn sefydliadau addysg bellach.
- O dan adran 26, caiff awdurdodau lleol hefyd benderfynu **cymryd cyfrifoldeb am CDU** sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg bellach. Yn ogystal â theuluoedd, gall y corff llywodraethu hefyd ofyn i awdurdod lleol ystyried cymryd cyfrifoldeb am CDU (y prawf tu hwnt i allu ac o fewn rheswm a drafodwyd uchod).
- Mae adran 24 yn darparu bod awdurdod lleol i lunio CDU gyfer dysgwr a **chyfarwyddo corff llywodraethu ysgol** i gynnal y cynllun hwnnw.
- Mae adran 30 yn galluogi awdurdodau lleol i ailystyried penderfyniad corff llywodraethu ysgol i **roi'r gorau i gynnal** CDU dysgwr.

Amcan cyffredinol B: Proses integredig a chydweithredol sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol

Nod craidd 4: Rhagor o gydweithredu

Dyma un o nodau pwysicaf y Bil a'i ddiben yw sicrhau bod awdurdodau lleol a chyrff ieuchyd yn gweithio gyda'i gilydd er lles pennaf y dysgwr. Mae hefyd yn un o'r meysydd a **ddenodd y pryder mwyaf** yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft ac yn ystod gwaith craffu cyn deddfu y Pwyllgor blaenorol.

Dyletswydd ar gyrff iechyd i wneud darpariaeth

Mae'r **Bil drafft** (PDF 258KB) yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau darpariaeth ADY ar gyfer dysgwyr os yw'r ddarpariaeth honno wedi'i nodi yn ei Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth ond wedi cael ei chynnwys yn y CDU os oedd corff iechyd wedi **'cytuno'** i hynny.

Cafodd hyn ei feirniadu'n hallt gan randdeiliaid, a hefyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a ddaeth i'r casgliad nad oedd hyn yn **rhwymo'r sector iechyd yn ddigonol** i gynnig darpariaeth angenrheidiol. I'r gwrthwyneb, dadleuwyd mai **barn glinigol** gweithwyr iechyd proffesiynol ddylai fod y ffactor sy'n penderfynu pa ddarpariaeth GIG sy'n briodol ac yn angenrheidiol ar gyfer dysgwyr ag ADY.

Mae Llywodraeth Cymru wedi newid geiriad yr adran berthnasol yn y **Bil** (adran 18 erbyn hyn) fel a ganlyn:

- Os gofynnir am hynny gan awdurdod lleol, mae'n **rhaidd i'r corff iechyd 'ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol** ar gael sy'n debygol o **helpu** i ddiwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc'.
- Os yw corff iechyd yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol o'r fath, mae'n rhaid iddo **sicrhau'r** driniaeth neu'r gwasanaeth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

Mae'n cael ei gydnabod yn eang fod cydweithio effeithiol o'r cychwyn cyntaf wrth nodi ADY a datblygu CDU yn hanfodol i wella'r system.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

Mae'r ddyletswydd yn gam pwysig ymlaen o ran sicrhau mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch pa wasanaeth fydd yn cynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn CDU nag sy'n wir am ddatganiadau AAA ar hyn o bryd. (paragraff 3.120)

*Bydd CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu **'sy'n nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol** am gyflenwi'r elfennau unigol'. (paragraff 3.116)*

Mae pennod 12 o'r Cod drafft yn nodi dyletswyddau gorfodol ac yn rhoi arweiniad ar sut y dylid gweithio ar sail amlasiantaeth wrth lunio CDU.

Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a help arall

Mae adran 58 yn darparu, pan fo **awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth neu gymorth arall** gan gyrff eraill (megis byrddau iechyd) i gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau ADY, er enghraifft asesu anghenion dysgwyr neu lunio CDU i ddiwallu ADY dysgwyr, **rhaidd i'r corff gydymffurfio** â'r cais hwnnw, oni bai y byddai gwneud hynny:

- yn anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun, neu
- yn cael effaith andwyol ar y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau.

Mae'r ddyletswydd i gynorthwyo yn debyg i'r gofynion presennol o ran AAA. Fodd bynnag, mae'r **ddyletswydd i rannu gwybodaeth yn ddyletswydd newydd** ac mae wedi'i llunio i fynd i'r afael â rhai o'r 'materion cyfredol sydd ynghlwm wrth fethiant cyrff i rannu gwybodaeth mewn modd mor effeithiol ag y dylent'. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd canllawiau clir yn y Cod i ategu hyn.

Plant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol

Mae'r Bil yn rhoi cyfrifoldeb penodol yn achos plant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol. Mae adran 57 yn **ei gwneud yn ofynnol iddynt hysbysu rhieni'r plentyn** os ydynt o'r farn bod gan y plentyn ADY,

neu ei bod yn debygol bod gan y plentyn ADY. Bydd **disgresiwn gan gyrff iechyd i ddod â hyn i sylw'r awdurdod lleol perthnasol** os ydynt wedi'u bodloni y byddai gwneud hynny er lles pennaf y plentyn. Yna, rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY, oni bai fod yr eithriadau yn gymwys. Mae'r Cod drafft (paragraff 7.1.33) yn datgan y caiff gyrff iechyd ddarparu gwasanaethau diagnostig a chymorth arall i helpu i lunio CDU.

Cysylltiadau â darpariaeth arall

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r Bil 'yn creu sail ddeddfwriaethol glir ar gyfer **osgoi dyblygu** ymdrech a dryswch sy'n digwydd lle y caiff nifer o gynlluniau eu llunio ar gyfer yr un person'. Mae adran 23 yn darparu ar gyfer **llunio, adolygu neu ddiwygio CDU ar yr un pryd â chynlluniau eraill**, a fydd, yn ôl y Memorandwm, 'yn ei gwneud hi'n bosibl cysoni ac integreiddio prosesau cynllunio a fyddai'n digwydd ar wahân fel arall'. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod hyn yn adlewyrchu'r dull o weithredu yn ***Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***, sy'n galluogi, er enghraifft, fod CDU plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau addysgol sydd ganddynt o dan Ddeddf 2014.

Rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig mewn byrddau iechyd

Mae adran 55 o'r Bil yn gosod **dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd i benodi swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig**. Rhaid i'r rôl hon gael ei gwneud gan aelod o staff sy'n ymarferydd meddygol cofrestredig, yn nys gofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro y bydd y swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig:

- yn sicrhau bod **modelau gwasanaeth priodol** o fewn pob bwrdd iechyd;
- **yn darparu arweinyddiaeth** o fewn y bwrdd iechyd er mwyn **helpu i gydymffurfio â'r** dyletswyddau perthnasol;
- yn cysylltu â phartneriaid ac yn gwasanaethu fel y **prif bwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol**; ac
- yn ysgogi a hwyluso **cydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol** er lles plant a phobl ifanc ag ADY.

Ni fydd y swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig yn rhan o'r gwaith o asesu ac adolygu CDUau penodol, ac eithrio fel rhan o'i arferion clinigol arferol. Eto i gyd, bydd yn gyfrifol am **sicrhau bod y bwrdd iechyd yn rhoi mewnbwn priodol**. Mae pennod 12 o'r Cod drafft yn rhoi rhagor o wybodaeth am rôl arfaethedig y swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig a'i brif gyfrifoldebau. (Gweler pennod 7 o'r papur hwn.)

Nod craidd 5: Dyheadau uchel a deilliannau gwell

Mae adran 56 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn **cadw o dan adolygiad y trefniadau** ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY yn eu hardal ac **ystyried a yw'r rhain yn ddigonol**. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all gael ei threfnu'n rhesymol gan gyrff eraill, fel gyrff iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud mai diben hyn yw 'sicrhau bod pawb yn arddel safonau uchel'.

Rôl y Cydlynnydd ADY mewn lleoliadau addysg

Mae'r Memorandwm yn nodi bod **dynodi unigolyn** (neu grŵp o unigolion) o fewn pob lleoliad (neu grŵp o leoliadau) yn **hanfodol i sicrhau cysondeb a safonau uchel** drwy gydlyn a chynllunio'n effeithiol. Mae adran 54 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol prif ffrwd a gynhelir, gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion gael **Cydlynnydd Anghenion Dysgu**

Ychwanegol dynodedig. Mae ysgolion arbennig yn cael eu heithrio o'r gofyniad hwn gan fod disgwyl i bob aelod o staff roi sylw i ADY.

Bydd y Cydlynnydd ADY yn **disodli swyddogaeth bresennol anstatudol Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig**, a gaiff ei dehongli'n wahanol ar hyn o bryd ar draws gwahanol leoliadau ac awdurdodau, yn ôl Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae adran 54 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r cymwysterau a/eu brofiad y mae'n rhaid i berson eu meddu i fod yn Gydlynnydd ADY.

Mae rhagor o fanylion ym mhennod 5 o'r Cod drafft.

Addysgu dysgwyr mewn ysgolion annibynnol

Mae adrannau 48-52 o'r Bil yn **diwygio'r prosesau deddfwriaethol presennol** ar gyfer awdurdodau lleol sy'n addysgu dysgwyr ag AAA (ADY erbyn hyn) mewn ysgolion annibynnol. Cynigiwyd hyn i ddechrau yn y **Bil Addysg (Cymru)** yn 2013 ond cafodd ei ddileu drwy welliant yng Nghyfnod 2, ynghyd â'r diwygiadau AAA ôl-16 a gynhwyswyd yn y Bil hwnnw.

Mae'r *Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)* yn **diddymu** adran 347 o *Ddeddf Addysg 1996* sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, gyda chynghor Estyn, **gydsynio i bob lleoliad unigol**. Dyma un o'r ddau lwybr cyfreithiol presennol ar gyfer lleoli/derbyn dysgwr ag AAA mewn ysgol annibynnol. Y llall yw adran 160 o *Ddeddf Addysg 2002* sy'n caniatáu i ysgolion gofrestru fel ysgol annibynnol, lle y gallant hefyd wneud cais i dderbyn dysgwyr ag AAA.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau '**cael gwared ar y dyblygu diangen** a'r dryswch rhwng y ddwy drefn, gan alluogi un system glir ar gyfer cofrestru.' Mae'r Bil yn diddymu adran 347 ac yn diwygio proses adran 160 fel bod **angen i ysgolion annibynnol ddangos eu bod yn gallu cynnig rhai mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol**. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi **cofrestr o ysgolion annibynnol**, a fydd yn cynnwys manylion am y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gall ysgol annibynnol ei chynnig. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd hyn yn lleihau'r risg fod dysgwyr yn cael eu lleoli'n amhriodol. Hefyd, bydd gofyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr o sefydliadau arbennig annibynnol ôl-16, y bydd yn rhaid i bob un ohonynt gwrdd â meini prawf ac amodau i'w pennu mewn rheoliadau.

Amcan cyffredinol C: System deg a thryloyw

Nod craidd 6: System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro

Fel y mae'r Memorandwm yn ei gydnabod, mae adolygiadau blaenorol wedi dod i'r casgliad fod y system bresennol o ddatganiadau statudol gan awdurdodau lleol statudol a darpariaeth anstatudol a arweinir gan ysgolion '**yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn achosi gwrthdaro**'. Yn yr Ail Gynulliad, yn 2006, canfu'r **Pwyllgor Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes (PDF 262KB)** fod y broses yn 'gymhleth, gall esgor ar wrthdaro a gall beri rhwystredigaeth a gofid i rieni' a 'gall fod yn system anghyfartal' lle gall 'rhieni mwy huawdl ac abl ddefnyddio'r system yn well nag eraill'.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu y bydd **cyflwyno CDU statudol ar gyfer pob dysgwr ag ADY** yn cael gwared ar y 'rhaniad artiffisial a dadleuol presennol' ac yn '**cael gwared ar un o brif achosion tensiwn sy'n achosi gwrthdaro**' (paragraff 3.114 y Memorandwm).

Mae adran 7 yn **ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu bod gwybodaeth a chynghor** am ADY a'r system ADY yn cael eu darparu. Mae'n rhaid iddynt wneud eu trefniadau i roi gwybodaeth a chynghor yn hysbys i restr o bersonau a bennir yn adran 7(2).

Mae adran 76 yn gwneud darpariaeth fel y gall plentyn gael rhywun i'w gefnogi, sef '**cyfaill achos**', os **nad oes ganddo'r galluedd** i ddeall gwybodaeth neu ddogfennau a roddir iddo, neu i ddeall sut i arfer

yr hawliau a roddir iddo. Bydd cyfeillion achos yn cael eu **penodi gan y Tribiwnlys** ar gais unrhyw berson neu ar ysgogiad y Tribiwnlys ei hun a gallant gynrychioli a chefnogi'r plentyn, a **gwneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y plentyn**. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau ynglŷn â rôl cyfeillion achos o dan adran 39.

Nod craidd 7: Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach

Mae'r Memorandwm yn dweud fel a ganlyn:

*Os bydd anghytundebau ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth o'i fewn dylai'r system newydd ganolbwyntio ar sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y **lefel fwyaf leol bosibl**. (paragraff 3.14) [fy mhwyslais i]*

Yn ôl y Cod drafft:

*Dylai ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol ganolbwyntio ar roi cyfle i'r partïon godi pryderon neu gwestiynau ar bob cam o'r broses ac **atal problemau rhag gwaethygu**. (paragraff 18.3) [fy mhwyslais i]*

Mae adran 61 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i **awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau** rhwng plant/pobl ifanc a/neu eu rhieni ar y naill law, a'r ysgol/coleg neu awdurdod lleol ar y llaw arall. Byddai hyn yn cynnwys trefnu bod **person annibynnol** ar gael i helpu i ddatrys anghytundeb. Rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo'r defnydd o'r trefniadau sydd ganddynt ac egluro i'r plentyn/person ifanc a/neu ei rieni na fydd unrhyw drefniadau y byddant yn manteisio arnynt yn effeithio ar eu hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

Hefyd, mae adran 62 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu **gwasanaethau eirioli annibynnol**, er mwyn rhoi cyngor a chymorth i blentyn neu berson ifanc y maent yn gyfrifol amdano, gan gynnwys yr opsiwn o gynrychiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol yn y Cod i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i **hysbysu teuluoedd ac eraill am y gwasanaethau eirioli annibynnol sydd ar gael**. Roedd hyn **ar wyneb y Bil drafft** ond mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y byddai'n well ei roi yn y Cod.

Mae pennod 18 o'r Cod drafft yn cynnwys canllawiau dros dro i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylent fodloni eu dyletswyddau o dan adrannau 61 a 62. (Gweler pennod 8 o'r papur hwn am drafodaeth fanylach.)

Nod craidd 8: Hawliau clir a chyson i apelio

Mae adran 79 yn **ailenwi** Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn **Dribiwnlys Addysg Cymru**. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud fod hyn yn **adlewyrchu rôl y Tribiwnlys yn well** gan ei fod yn gwrando ar honiadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd sy'n ymwneud ag ysgolion yn ogystal ag achosion AAA/ADY. Mae adrannau 79-81 yn **cadw'r trefniadau ymarferol presennol ar gyfer y Tribiwnlys i raddau helaeth** ac nid yw'r Bil yn **gwneud unrhyw newidiadau sylweddol** i'r ffordd y mae'r Tribiwnlys yn gwrando ar apelau.

Mae adrannau eraill o'r Bil yn ymwneud â'r Tribiwnlys. Yr un pwysicaf, fwy na thebyg, yw adran 69, sy'n datgan os yw'r **Tribiwnlys yn gwneud gorchymyn**, rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol o dan sylw gydymffurfio â'r gorchymyn hwnnw. **Nid yw hyn yn cynnwys cyrff ieuchyd** (adran 19(8)) ac yn ystod yr ymgynghoriad a'r gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil drafft beirniadwyd y Tribiwnlys am na roddwyd dannedd iddo mewn perthynas â chyfarwyddo cyrff ieuchyd.

Mae adran 63 yn cynnwys darpariaeth fel y gall **plentyn a/neu ei rieni, neu berson ifanc, apelio i'r Tribiwnlys** am y ffordd y mae awdurdod lleol neu gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach wedi

ymateb (neu wedi methu ag ymateb) i'w ADY. (Ni fyddai'n apelio yn erbyn corff llywodraethu ysgol oherwydd byddai hyn eisoes wedi cyrraedd lefel yr awdurdod lleol drwy gais fod yr awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniadau a wnaed gan yr ysgol.)

Ym mis Ionawr 2015, rhoddwyd hawl rhieni/gofalwyr i apelio i'r plant a'r bobl ifanc eu hunain (mewn ysgolion a gynhelir). Mae'r Bil yn ehangu hyn i blant a phobl ifanc ag ADY hyd at 25 oed, sydd mewn addysg bellach, a thrwy hynny mae'n sicrhau **mwyafrif o gydraddoldeb** rhwng y rhai mewn **addysg bellach** a'r rhai mewn **chweched dosbarth ysgolion**.

Mae pennod 19 o'r Cod drafft yn rhoi rhagor o fanylion am y prosesau ar gyfer apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys.

Nodau craidd trawsbynciol

Mae dau o nodau craidd Llywodraeth Cymru yn cefnogi pob un o'r tri amcan cyffredinol.

Nod craidd 9: Cod gorfodol

Mae Adran 4 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Cod ar ADY. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Cod i ddechrau ac yna ei gosod gerbron y Cynulliad fel is-ddeddfwriaeth. Mae hon yn broses debyg â'r un ar gyfer y Codau ar Dderbyniadau Ysgolion a Threfniadaeth Ysgolion.

Bydd y Cod newydd yn cynnwys mwyafrif o ragnodi, yn wahanol i'r Cod Ymarfer AAA presennol, a gynhyrwyd yn 2002 ac a ddiwygiwyd yn 2004. Mae'r **Cod presennol** yn darparu **cyngor ymarferol** i'r asiantaethau perthnasol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau, a rhaid iddynt roi sylw iddo. Fodd bynnag, yn y Rhagair nodir mai'r asiantaethau perthnasol fydd yn penderfynu sut yn union y maent yn cyflawni eu dyletswyddau statudol **yn sgil y canllawiau** [yn hytrach na glynu'n gaeth atynt].

Mae rhanddeiliaid eisoes wedi dweud eu bod **o blaid cod gorfodol** yn hytrach nag un sydd ddim ond yn wirfoddol neu'n ddewisol. Roedd 89 y cant o'r ymatebwyr yn argymhell dull o'r fath yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn 2014.

Mae'r Memorandwm yn egluro y bydd y Cod newydd:

*yn sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY **ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol**. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY **weithredu o fewn y system hon**. **Cod ar gyfer ymarferwyr** fydd y Cod yn y bôn er mwyn eu helpu i ddeall y system newydd ar gyfer ADY a'i gweithredu. [fy mhwyslais i] (paragraff 3.133)*

Caiff llawer o'r manylion am y ffordd y cynhelir asesiadau a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch pa ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu ADY dysgwyr **eu nodi yn y Cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn sicrhau bod y Cod yn cynnwys gofynion manwl ynghylch sut y dylai Cynlluniau Datblygu Unigol gael eu paratoi, eu cynnal a'u hadolygu.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **fersiwn ddrafft gynnar o'r Cod ADY newydd (PDF 986KB)** ym mis Medi 2015, i roi arwydd o fwriadau polisi'r Bil drafft ac i gynorthwyo'r ymgynghoriad arno. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu **fersiwn ddiweddarach o'r Cod drafft (PDF 2.95MB)**, er bod y fersiwn hon hefyd at 'ddibenion enghreifftiol yn unig' i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar y Bil ei hun.

Nod craidd 10: Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Mae adran 6 o'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau **roi sylw** i'r canlynol:

- a) **safbwyntiau, dymuniadau a theimladau**’r plentyn a’i riant neu’r person ifanc;
- b) y pwysigrwydd bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc yn **cymryd rhan mor llawn â phosibl** mewn penderfyniadau; a
- c) y pwysigrwydd bod yr **wybodaeth a’r gefnogaeth angenrheidiol yn cael eu darparu** i’r plentyn ac i riant y plentyn neu i’r person ifanc er mwyn eu galluogi neu ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu bod **gwybodaeth a chynghor am ADY a’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol** yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc (yn ogystal â rheini ac arweinwyr yr ysgol). Mae’r darpariaethau yn rhan o’r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei alw’n ddull gweithredu sy’n **canolbwyntio ar unigolion**. Mae’r Cod drafft yn ei gwneud yn ofynnol ‘i unrhyw un sy’n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o’r Ddeddf neu o dan y Cod hwn **gynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam** o’r broses, gan wrando ar eu safbwyntiau, eu dymuniadau a’u teimladau’. (paragraff 22). Ategir y Cod drafft gan sawl egwyddor gyffredinol, gan gynnwys y dylai ‘pawb sy’n darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY gydweithio **er budd pennaf y plentyn neu’r person ifanc**’.

Mae adran 62 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu **gwasanaethau eirioli annibynnol** a fydd yn rhoi cynghor a chymorth i unrhyw blentyn/person ifanc sy’n ystyried apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru neu gymryd rhan mewn datrys anghydfod.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y ddarpariaeth yn adran 76 i benodi **cyfaill achos** i gynrychioli a chefnogi plentyn ag ADY sydd heb alluedd, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar ei ran, yn cwmpasu sefyllfaoedd lle nad oes modd i blant ag ADY gael cymorth eu rhieni yn hyn o beth.

Mae’r Cod drafft yn cadarnhau’r pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar gynnwys plant a phobl ifanc. Mae tri o’i wyth egwyddor yn datgan fel a ganlyn:

- Dylai pawb sy’n darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY **gydweithio er budd pennaf** plentyn neu’r person ifanc;
- Dylai **safbwyntiau, dymuniadau a theimladau**’r plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc fod yn **ganolog i’r holl broses o wneud penderfyniadau**;
- Dylid sicrhau bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc **yn gallu cyfranogi mor llawn â phosibl** yn y broses o wneud penderfyniadau. [fy mhwyslais i]

4. Bil drafft 2015

Mae’r bennod hon yn cyfeirio at y Bil fel y’i cyflwynwyd. Nid yw rhifau’r adrannau (na’r cyfeiriadau at y Gweinidog) wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu’r gwelliannau i’r Bil yng Nghyfnod 2 na’r newid Gweinidog. Dylid darllen fersiwn ddiweddaraf y Bil ar ôl Cyfnod 2 felly, er mwyn cadarnhau’r cyfeiriadau at rifau adrannau yn y Bil a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2016.

Gwaith craffu cyn deddfu’r Pwyllgor yn y Pedwerydd Cynulliad

Yn ei **waith craffu cyn deddfu** ar y **Bil drafft**, roedd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad ‘yn croesawu’n fawr y bwriad’ i ddiwygio’r system, ond yn gweld bod **‘llawer o waith i’w wneud’** i fynd i’r afael â **‘llawer o feysydd o ansicrwydd’** cyn i Fil gael ei gyflwyno’n ffurfiol i broses ddeddfwriaethol y Cynulliad.

Ar y cyfan, roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor blaenorol yn gadarnhaol am nodau ac amcanion y Bil drafft. Fodd bynnag, roedd pob un a gyflwynodd dystiolaeth wedi codi rhai pryderon ynghylch agweddau ymarferol ar y diwygiadau arfaethedig.

Yn ei **lythyr at y Gweinidog Addysg a Sgiliau** (PDF 330KB) ar y pryd, cyfeiriodd y Pwyllgor at **bedwar maes** lle gallai Llywodraeth Cymru gryfhau'r ddeddfwriaeth, yn ogystal â rhai heriau trosiannol megis cyllid a chapasiti'r gweithlu.

- darpariaeth annigonol ar gyfer **cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd**, gyda'r Pwyllgor yn credu bod angen i gyrrff iechyd gael dyletswyddau cadarnach;
- galwad am i'r Cynlluniau Datblygu Unigol cyffredinol (CDUau) gadw manteision y dull tair haen presennol, gan alluogi'r **lefelau o ymyrraeth i fod yn raddol** fel bod cymorth mwy dwys ar gael ar gyfer anghenion mwy cymhleth a difrifol, a mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n **gyfrifol am y cynlluniau**;
- yr angen i **Dribiwnlys Addysg Cymru** gael **pwerau cryfach** wrth ystyried apelau gan deuluoedd yn erbyn awdurdodau lleol a **byrddau iechyd**;
- **prinder manylion** am y ddarpariaeth ar naill ben y sbectrwm oedran 0-25, hynny yw, beth fydd ar gael ar gyfer y **blynyddoedd cynnar** ac **ar ôl 16 oed**.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Yng **nghrynodeb Llywodraeth Cymru** o'r 263 ymateb i'w hymgyngghoriad ar y Bil drafft dangoswyd bod gan **randdeiliaid byderon** am y cynigion deddfwriaethol yn eu ffurf ddrafft er bod **cefnogaeth gyffredinol i egwyddorion** a chyfeiriad y Bil. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pum cwestiwn caeedig yn gofyn i gyfranogwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno y byddai agwedd ar y Bil drafft yn effeithiol, neu a oeddent ddim yn cytuno nac yn anghytuno. **Ym mhob pum cwestiwn, roedd mwy yn anghytuno nag a oedd yn cytuno.**

- **Roedd 41 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno** bod y **diffiniadau arfaethedig** ar gyfer ADY a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn adlewyrchu'n briodol y ffocws a ddymunai Llywodraeth Cymru ar anghenion addysgol a bod y **Bil drafft yn delio'n iawn â'r ystod oedran 0-25**. Dim ond 34 y cant oedd yn cytuno.
- **Roedd 53 y cant yn anghytunoy** byddai'r Bil drafft yn creu **fframwaith cyfreithiol cadarn** ar gyfer paratoi, cynnal a chadw ac adolygu **CDUau**. Dim ond 23 y cant oedd yn cytuno.
- **Roedd 47 y cant yn anghytunoy** byddai'r Bil drafft yn helpu i sicrhau bod **buddiannau** plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu **diogelu a'u hyrwyddo**. Dim ond 30 y cant oedd yn cytuno.
- **Roedd 49 y cant yn anghytuno** y byddai'r Bil drafft yn creu sylfaen i **wella'r ffordd y mae asiantaethau yn cydweithio** i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Dim ond 22 y cant oedd yn cytuno.
- **Roedd 46 y cant yn anghytuno** y byddai'r Bil drafft yn cynnig **fframwaith priodol i helpu i osgoi a datrys anghytundeb**, a bod sylfaen gadarn i'r darpariaethau'n ymwneud ag apelio. Dim ond 20 y cant oedd yn cytuno.

Ceir rhagor o ddadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad ym mhennod 7 o bapur briffio'r Gwasanaeth Ymchwil, **Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru** (Tachwedd 2016).

Cyn ei chrynodeb o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn rhoddodd Llywodraeth Cymru ragair yn cyfeirio at y gefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil drafft. Dywedodd hefyd nad oedd y **naratif** a

roddodd yr ymatebwyr i gefnogi eu hatebion i'r cwestiynau caeedig **yn cyfleu lefel mor uchel o anghytundeb** ag yr awgrymir gan y canlyniadau. Yn ei **ddatganiad ar 1 Gorffennaf 2016**, dywedodd y Gweinidog fod y pryderon a godwyd 'yn adlewyrchu dymuniad yr ymatebwyr i weld rhagor o fanylder' neu'n dangos **'camddealltwriaeth o'n bwriadau** neu effaith ymarferol ddisgwyliedig ein cynigion'.

Newidiadau ers y Bil drafft

Yn y **Memorandwm Esboniadol** (PDF 2.81MB) (paragraffau 4.15-4.19) mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys **tabl sy'n rhestru'r newidiadau** a wnaed i'r fersiwn ddrafft o'r Bil a'r rhesymeg Llywodraeth Cymru am bob un ohonynt. Cyfeiriodd swyddogion Llywodraeth Cymru at bum prif newid. Rhestrir y rhain isod ynghyd â chweched maes o newid yn ymwneud â dewis rhieni ynghylch a yw dysgwr ag ADY yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig.

Dyletswyddau ar gyrff iechyd

Gellid dadlau mai'r newid mwyaf arwyddocaol yw'r ymgais i **gryfhau'r ddyletswydd ar gyrff iechyd** i wneud darpariaeth i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Cafodd hyn ei feirniadu am fod yn rhy wan yn y Bil drafft, gan mai'r unig ddarpariaeth y mae angen i gyrff iechyd ei gwneud yw lle maent yn 'cytuno' i wneud hynny. Bellach **rhaid iddynt fynd ati i ystyried a allent wneud ymyriad buddiol** ac, os felly, mae **dyletswydd arnynt i sicrhau'r ddarpariaeth honno** (gweler yr adran gynharach ym mhennod 3 ar nod craidd 4).

Darpariaeth cyfrwng Gymraeg:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r darpariaethau ar gyfer dysgwyr ag ADY i dderbyn cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os mai honno yw eu dewis iaith. Ymateb yw hyn i ddiffyg sylw i hyn yn y Bil drafft. Mae adrannau 10 a 12 sy'n cyfeirio at baratoi a chynnal CDU gan gyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol, yn y drefn honno, bellach yn cynnwys **gofyniad eu bod yn ystyried a ddylid gwneud darpariaeth yn Gymraeg** ac, os felly, **nodi hynny yn y CDU**. Mae gan gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ddyletswydd i **gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gwneir unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg a nodir mewn CDU**. Mae adran 18, sy'n cynnwys y ddyletswydd ar gyrff iechyd, yn adlewyrchu'r gofyniad ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i ystyried a ddylid gwneud darpariaeth yn Gymraeg ac, os felly, i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau hynny.

Wrth adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn eu hardal, yn unol ag adran 56, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg.

Y blynyddoedd cynnar

Mae Llywodraeth Cymru wedi **ymestyn y dyletswyddau** ar ysgolion meithrin a gynhelir mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol i **ddarparwyr nas cynhelir** yn ogystal, ond dim ond lle maent yn **derbyn cyllid gwladol ar gyfer lleoedd meithrin**. Bydd darparwyr o'r fath yn cael eu cynnwys yn y Cod ADY; mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod hynny'n mynd i'r afael â phryderon nad yw'r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth ddigonol ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Plant sy'n derbyn gofal

Mae darpariaethau newydd (adrannau 13-17 yn bennaf) yn y Bil ar gyfer cymhwyso'r system ADY newydd, yn enwedig yn achos plant sy'n derbyn gofal. Yn gyffredinol, mae'r Bil yn gosod y **cyfrifoldeb** am faterion ADY, gan gynnwys y penderfyniad cychwynnol a oes gan blentyn ADY, **ar yr awdurdod lleol** sy'n gofalu am y plentyn. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu gyfeirio achosion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal i'r awdurdod lleol.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod **CDU yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Cymorth Cydgysylltiedig** y mae'n ofynnol i bob plentyn sy'n derbyn gofal ei gael o dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

Roedd y Bil drafft yn cynnwys pŵer i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud o dan Reoliadau dilynol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei bod yn **fwy priodol** rhoi'r ffordd y mae'r fframwaith newydd yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal **ar wyneb y Bil**.

Cydlynwyr ADY

Mae'r gofyniad i bob ysgol a sefydliad addysg bellach ddynodi aelod o staff yn Gydlynnydd ADY wedi cael ei addasu er mwyn bod yn **hyblyg** fel bod ysgolion llai yn **gallu rhannu Cydlynnydd ADY** neu fel bod ysgolion mwy a sefydliadau addysg bellach yn gallu penodi mwy nag un os oes angen. Hefyd, mae adran 54 hefyd wedi'i gwneud yn fwy eglur fel bod y ddyletswydd i gael Cydlynnydd ADY hefyd yn berthnasol i Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion gwirfoddol a sefydledig.

Dewis rhieni ynghylch a yw dysgwr ag ADY yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi diwygio adran 45 (adran 29 yn y Bil drafft) sy'n cynnwys dyletswydd i ffafrio addysgu dysgwr ag ADY mewn ysgol brif ffrwd yn hytrach nag mewn ysgol arbennig. Mae'r ddyletswydd hon eisoes yn gymwys ac un o **egwyddorion cyffredinol** y system bresennol yw bod anghenion plentyn ag AAA fel arfer yn cael eu **diwallu mewn ysgolion neu leoliad prif ffrwd**. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod hyn yn sylfaen allweddol i system addysg gynhwysol.

Ar hyn o bryd, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod **plentyn ag AAA / ADY yn cael ei addysgu mewn ysgol neu leoliad prif ffrwd oni bai bod amgylchiadau penodol yn berthnasol**. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae rhiant yn dymuno fel arall neu pan fydd addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill. Mae adran 45 o'r Bil yn ychwanegu disgwyliad pellach lle y mae er **lles pennaf y plentyn iddo gael eu addysgu mewn rhywle ar wahân i ysgol brif ffrwd** (sy'n amlach na pheidio yn golygu ysgol arbennig) ac mae'n dal yn gydnaws ag addysg effeithlon i blant eraill. Mae hyn yn ymateb i alwadau gan randdeiliaid mai lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc fydd y brif ystyriaeth o ran lleoli dysgwr ag ADY, sy'n unol â dull Llywodraeth Cymru o gynllunio sy'n canolbwyntio ar y person ei hun.

Fodd bynnag, mae **newid arall rhwng y Bil drafft a'r Bil** sydd wedi'i gyflwyno. Ychwanegwyd is-adran newydd (45(4)):

*Pan fo rhiant plentyn yn dymuno i'w blentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir, **nid yw is-adran (2)(c) [sy'n darparu i'r awdurdod lleol gynnwys dymuniad o'r fath] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir. [fy mhwyslais i]***

Felly, er y byddai awdurdodau lleol yn gallu defnyddio **cais gan rieni am addysg arbennig** fel **rheswm dros wyro o'r ddyletswydd i ragdybio darpariaeth brif ffrwd**, ni fyddai'n ofynnol iddynt **wneud hynny dim ond oherwydd bod rhiant wedi gofyn iddynt**.

Ar hyn o bryd, mae **Deddf Addysg 1996** (Atodlen 27) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â dymuniad rhieni am ysgol benodol oni bai bod yr ysgol honno yn anaddas i oedran, gallu neu ddawn plentyn neu i'w anghenion addysgol arbennig, neu bod hyn yn anghydnaws ag addysgu plant eraill yn effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

Mae'r tabl o newidiadau yn y Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y Bil yn ei 'gwneud yn glir' nad yw'n ofynnol i awdurdod lleol gydymffurfio â dymuniad rhiant i'w blentyn gael ei addysgu mewn ysgol arbennig yn hytrach nag ysgol brif ffrwd. Mae hyn, i bob golwg, yn **newid o'r gyfraith bresennol, yn hytrach na dim ond eglurhad o'r sefyllfa bresennol**.

Galw am newidiadau sydd heb eu cynnwys

Mae rhai rhannau o'r Bil yn aros yr un fath, er bod rhanddeiliaid (ac mewn rhai achosion y Pwyllgor blaenorol) wedi argymhell newidiadau.

- Roedd llawer yn galw am **dempled ar gyfer y CDU** er mwyn sicrhau cysondeb a hwylustod. Yn y Cod drafft (pennod 11), mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhestr o'r hyn sy'n orfodol ac yn dweud bod 'ystyriaeth yn cael ei rhoi i dempled safonol ar gyfer CDU ynghyd â'r posibilrwydd o ddefnyddio CDU electronig' cyn y gwneir penderfyniadau am y Cod terfynol.
- Yr un **diffiniad sydd i ADY** â'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer AAA (gweler pennod 2 o dan nod craidd 1). Roedd cadw'r diffiniad presennol yn rhan o'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt ym Mhapur Gwyn 2014 a Bil drafft 2015. Mewn ymgynghoriad blaenorol yn 2012 cynigiwyd y term Anghenion Ychwanegol (AN) a fyddai'n cwmpasu grŵp ehangach o blant a phobl ifanc ac yn canolbwyntio ar anghenion eraill heblaw rhai addysgol.
- Wrth gadw'r diffiniad presennol, mae goblygiadau ar gyfer y galw am gynnwys **rheoli anghenion meddygol**. Cafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg set gymharol gydlynus o gyflwyniadau i'w **ymgynghoriad yn ystod haf 2016 ar flaenoriaethau'r Pumed Cynulliad** a oedd yn galw am ddyletswyddau statudol ar ysgolion i reoli anghenion meddygol disgyblion ac i hyn gael ei gynnwys o bosibl yn y Bil ADY. Yn y Bil, **nid yw cyflyrau meddygol, er enghraifft diabetes, yn cael eu hystyried yn AAA/ADY** os nad ydynt yn achosi anhawster sylweddol fwy o ran dysgu, neu os nad ydynt yn gyfystyr ag anabledd sydd o reidrwydd yn effeithio ar fynediad at yr addysg neu'r hyfforddiant sydd ar gael yn gyffredinol. Ym mhennod 6 o'r Cod drafft mae canllawiau ar sut y dylid ystyried anghenion gofal iechyd wrth nodi ADY. (Gweler pennod 8 o'r papur hwn am drafodaeth fanylach.) Ym mis Mawrth 2017, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd ar reoli anghenion gofal iechyd mewn ysgolion.⁷
- Ni fu newid i **gylch gwaith y Tribiwnlys**, ac **ni fydd ganddo fodd o gyfarwyddo cyrff iechyd** er bod hyn wedi peri pryder cyffredinol yn ystod yr ymgynghoriad/gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil drafft.
- Ni chafodd y system ei hymestyn i **ddysgwyr ôl-16 nad ydynt mewn addysg bellach**. Felly, **ni fydd pobl ifanc sy'n dilyn prentisiaethau neu fathau eraill o ddysgu yn y gwaith ac y gallai fod ag ADY, wedi eu cynnwys yn y fframwaith newydd**. I'r gwrthwyneb, mae Llywodraeth Cymru wedi disodli'r cyfeiriad at 0-25 oed gydag 'addysg bellach' yn ei amcan cyffredinol cyntaf yn y Memorandwm Esboniadol, sef 'fframwaith deddfwriaethol unedig'.

5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, ar adeg cyflwyno'r Bil yng Nghyfnod 1

Mae'r bennod hon yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd. Nid yw rhifau'r adrannau (na'r cyfeiriadau at y Gweinidog) wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2. Mae'r wybodaeth isod felly wedi cael ei disodli.

⁷I gael gwybodaeth gefndir, gweler yr erthygl blog, [*Diwallu anghenion gofal iechyd plant a phobl ifanc mewn ysgolion. A oes angen newid y gyfraith yng Nghymru?*](#), Ionawr 2017.

Mae'r Bil yn rhoi **32 pŵer** i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Rhestrir y rhain mewn tabl ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol.

- Mae **12** o'r pwerau hyn i gael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru o dan y weithdrefn **gadarnhaol**, sy'n golygu bod yn rhaid i'r offeryn statudol gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.
- Bydd **un** pŵer yn amodol ar y weithdrefn **gadarnhaol os caiff deddfwriaeth sylfaenol ei diwygio**, ond fel arall dim ond y weithdrefn negyddol fydd ei hangen.
- Mewn **17** achos, mae'r weithdrefn **negyddol** i gael ei defnyddio, sy'n golygu bod gan y Cynulliad 40 diwrnod (heb gynnwys toriad) i wrthod yr offeryn statudol, neu fe fydd yn dod i rym. Mae hyn **yn cynnwys y Cod ADY**, gan ddilyn y weithdrefn a bennir yn adran 5 o'r Bil. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar ddrafft o'r Cod, ond bydd wedyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol.
- Caiff Gweinidogion Cymru arfer **dau** bŵer **heb yr angen am weithdrefn Cynulliad**. Mae'r rhain ar gyfer dwyn y Cod (ar ôl bodloni proses adran 5) a'r Ddeddf ei hun i rym.

6. Ystyried yr opsiynau eraill a goblygiadau ariannol y Bil, fel y'i cyflwynwyd yng Nghyfnod 1

Mae'r bennod hon yn cyfeirio at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2016. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ym mis Medi 2017. Mae pennod 10 o'r papur hwn yn rhoi'r sefyllfa fel y'i diweddarwyd.

Asesu opsiynau

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a geir yn y **Memorandwm Esboniadol** trafodir dau opsiwn. Yr opsiynau hynny yw **'Gwneud dim'** a'r **'Opsiwn a ffefrir'**, sef:

- Cyflwyno deddfwriaeth i wella'r system bresennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig i leihau'r gwrthdaro sydd o fewn y system ar hyn o bryd, a gwella canlyniadau i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhoi dewis arall yn wahanol i'r Memorandwm Esboniadol drafft a gyflwynwyd gyda'r Bil drafft. Roedd y Memorandwm Esboniadol drafft yn cynnwys yr opsiwn o ddiwygio'r system bresennol ar sail y model **yr ymgynghorwyd arno yn 2012**. Mae'r opsiwn a ffefrir yn y Memorandwm Esboniadol drafft a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil a gyflwynwyd yn seiliedig ar **gynigion Papur Gwyn 2014**.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (paragraffau 7.1-7.116) yn cynnwys crynodeb Llywodraeth Cymru o fanteision, anfanteision a risgiau'r opsiwn 'gwneud dim' a'r opsiwn a ffefrir, sydd wedi'u dadansoddi yn ôl chwe maes y Bil.

Goblygiadau ariannol

Dywedodd Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, yn ystod proses graffu Cyfnod 1 y byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nes ymlaen yn y broses ddeddfwriaethol i fynd i'r afael â gwallau a gwybodaeth newydd ynghylch costau'r Bil.

Roedd **Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol** Llywodraeth Cymru (tudalennau 86-87) yn rhoi crynodeb yn amcangyfrif y byddai'r **arbedion net o ran costau gweinyddol yn £2.2 miliwn** yn ystod y cyfnod o **bedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21**. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys costau trosiannol, ond nid oedd yn cynnwys 'costau suddedig' (costau yr aethpwyd iddynt eisoes cyn gweithredu'r Bil).

Ar ôl canfod **gwallau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol**, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes **ddiweddariad a oedd yn cynnwys tablau manwl** (PDF 1.82MB) yn lle'r rhai yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr effeithiodd y gwallau hyn yn uniongyrchol arnynt.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ailgyfrifo'r crynodeb o'r costau gweinyddol y cyfeirir atynt uchod. Dywedodd Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ei fod yn bwriadu ymgorffori'r rhain ac unrhyw newidiadau eraill yn y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan fyddant yn cael eu diwygio ar ôl trafodion Cyfnod 2. Mae'n ymddangos **yn dilyn y newidiadau hyn**, y bydd yr arbedion net o ran costau gweinyddol dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21 yn **£809,630** (cyfartaledd o £202,408 y flwyddyn).

Mae'r costau pontio sydd eu hangen i weithredu'r system newydd, yn cael eu cyfrifo dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21 fel **£12 miliwn** (cyfartaledd o £3 miliwn y flwyddyn). Caiff £9.4 miliwn o hyn ei ariannu gan Lywodraeth Cymru:

- £7.0 miliwn drwy gyfrwng grantiau pontio i'r sefydliadau yr effeithir arnynt.
- £2.4 miliwn yng nghostau pontio Llywodraeth Cymru.

Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhagweld y byddai'r £2.6 miliwn o gostau pontio sy'n weddill yn cael eu talu gan gyrff cyhoeddus heblaw Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ers cyflwyno'r Bil a chyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, **mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi pecyn ariannu sy'n werth £20 miliwn** i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil a'r rhaglen Trawsnewid ADY ehangach. Dywedodd wrth **y Pwyllgor Cyllid ar 8 Chwefror 2017** (PDF 515KB) fod hyn yn disodli'r dyraniad costau o £2.6 miliwn i gyrff cyhoeddus eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am yr £20 miliwn yn **llythyr y Gweinidog i'r Pwyllgor Cyllid, dyddiedig 8 Mawrth 2017 (PDF 362KB)**.

Costau

Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd system newydd yn costio £532.9 miliwn dros y cyfnod gweithredu o bedair blynedd (ac eithrio costau pontio).

O gymharu â'r system flaenorol disgwylir y bydd gan bedwar sefydliad gostau cynyddol parhaus dros y cyfnod o bedair blynedd a gwmpesir gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Y sefydliadau hynny yw:

- Byrddau Iechyd Lleol (£825,600)
- Sefydliadau addysg bellach (£92,800)
- Estyn (£172,000)
- Llywodraeth Cymru (£680)

Fel y crybwyllwyd, disgwylir i'r costau pontio i fod yn £12 miliwn dros y cyfnod o bedair blynedd.

Mae'r gwariant mwyaf dros y cyfnod pontio o bedair blynedd yn gysylltiedig â chostau ariannu a chyfle sy'n ymwneud â'r **cymhwyster lefel Meistr** y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ei gael. Bydd hwn yn gyfanswm o **£9.3 miliwn**.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn amcangyfrif y bydd wedi ysgwyddo **'costau suddedig' o £1.8 miliwn** cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r RIA yn dweud mai'r costau suddedig yw'r rhai sy'n canolbwyntio ar “gefnogi asiantau cyflenwi i gynllunio a rheoli'r broses bontio â'r system newydd”. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys costau suddedig yn ei hasesiad cyffredinol o gost a budd.

Arbedion/Manteision

O ran costau parhaus (heb gynnwys costau pontio), mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd y system newydd yn **costio £12.8 miliwn yn llai** na'r system bresennol (£3.2 miliwn yn llai y flwyddyn) dros y **cyfnod o bedair blynedd**.

Amcangyfrifwyd y bydd gostyngiad yng nghostau parhaus net tair sector yn sgil symud i'r broses newydd, sef:

- Awdurdodau lleol (£11.8 miliwn)
- Gyrfa Cymru (£2 filiwn)
- TAAAC (£61,200)

O ran yr arbedion a geir yn sgil y system newydd, mae'r **gostyngiad mwyaf yn y costau** yn gysylltiedig â chyflwyno proses y Cynllun Datblygu Unigol newydd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arbed tua **£3.3 miliwn y flwyddyn** dros y cyfnod o bedair blynedd.

Tablau crynhoi

Yn Nhabl 1 isod mae crynodeb o'r wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol (Tabl 69, paragraff 8.582) sy'n cyflwyno costau'r Bil yn ôl y chwe maes darparu. Dylid nodi'r canlynol:

- Mae 'cyfanswm y costau pontio', £12 miliwn, yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â symud i'r system newydd, gan gynnwys; £2.4 miliwn o gostau pontio Llywodraeth Cymru, £7 miliwn o grantiau pontio Llywodraeth Cymru, a £2.6 miliwn o gostau pontio i gyrff cyhoeddus eraill.
- Mae 'Cyfanswm costau cyffredinol – ac eithrio grantiau a chostau pontio Llywodraeth Cymru', arbediad o £7.8 miliwn, yn cynnwys: cyfanswm costau parhaus o -£12.8 miliwn, yn ogystal â chostau pontio net o £5 miliwn (sy'n cymryd i ystyriaeth y costau pontio o £2.6 miliwn i gyrff eraill a chostau pontio Llywodraeth Cymru o £2.4 miliwn), ond nid grantiau pontio Llywodraeth Cymru.
- Mae 'Cyfanswm costau cyffredinol gan gynnwys costau Llywodraeth Cymru', -£3.4 miliwn, yn cyfateb i gyfanswm y costau parhaus (-£12.8 miliwn) ynghyd â £2.4 miliwn o gostau pontio Llywodraeth Cymru a £7 miliwn o grantiau pontio Llywodraeth Cymru. Nid yw'n cymryd i ystyriaeth y costau o £2.6 miliwn i gyrff eraill.
- Mae hyn yn cyfateb i'r modd y cyflwynir y ffigurau yn Nhabl 69 a Thabl 70 o'r Memorandwm Esboniadol.
- Mae'r tablau isod yn rhoi ystyriaeth i'r cywiriadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac a amlinellwyd yn [llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 7 Chwefror 2017](#) (PDF 192KB).

Tabl 1: Amcangyfrif o gostau'r opsiwn a ffefrir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (y Bil) yn ôl darpariaeth (2016-17 i 2020-21)

	Gwneud dim		Cyflwyno'r opsiwn a ffefrir					Y gwahaniaeth yn y gost
	2016-17	Cyfanswm y 4 bl. - gwneud dim	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	Cyfanswm y 4 bl. - yr opsiwn a ffefrir	
Cynlluniau datblygu unigol								
Cynlluniau datblygu unigol - costau rheolaidd	37,575,400	150,301,600	34,268,700	34,268,700	34,268,700	34,268,700	137,074,800	-13,226,800
Cynlluniau datblygu unigol - costau pontio			237,900	0	0	0	237,900	237,900
Datrys anghydfodau								
Datrys anghydfodau - costau rheolaidd	12,140,700	48,562,800	12,140,700	12,140,700	12,140,700	12,140,700	48,562,800	0
Datrys anghydfodau - costau pontio			0	0	0	0	0	0
Darpariaeth addysg arbennig ôl-16								
Darpariaeth addysg arbennig ôl-16 - costau rheolaidd	19,249,734	76,998,936	19,116,114	19,116,114	19,116,114	19,116,114	76,464,456	-534,480
Darpariaeth addysg arbennig ôl-16 - costau pontio			9,200	0	0	0	9,200	9,200
Cofrestru ysgolion arbennig								
Cofrestru ysgolion arbennig - costau rheolaidd	415,095	1,660,380	457,985	457,985	457,985	457,985	1,831,940	171,560
Cofrestru ysgolion arbennig - costau pontio			53,300	0	0	0	53,300	53,300
Cydlynwyr ADY								
Cydlynwyr ADY - cyfanswm costau rheolaidd	67,022,700	268,090,800	67,022,700	67,022,700	67,022,700	67,022,700	268,090,800	0
Cydlynwyr ADY - cyfanswm costau pontio			1,542,554	3,085,106	3,085,106	1,542,554	9,255,320	9,255,320
Swyddogion Clinigol Dynodedig								
Swyddogion Clinigol Dynodedig - costau rheolaidd	0	0	206,400	206,400	206,400	206,400	825,600	825,600
Swyddogion Clinigol Dynodedig - costau pontio			330	0	0	0	330	330
Cyfanswm - costau rheolaidd	136,403,629	545,614,516	133,212,599	133,212,599	133,212,599	133,212,599	532,850,396	-12,764,120
Costau pontio Llywodraeth Cymru - costau			553,140	812,400	667,800	365,100	2,398,440	2,398,440
Cyfanswm - costau pontio			2,396,424	3,897,506	3,752,906	1,907,654	11,954,490	11,954,490
Costau pontio Llywodraeth Cymru - grantiau			1,544,000	1,660,000	1,860,000	1,892,000	6,956,000	6,956,000
Costau pontio net			852,424	2,237,506	1,892,906	15,654	4,998,490	4,998,490
CYFANSWM Y GOST - heb gynnwys grantiau a chostau pontio Llywodraeth Cymru	136,403,629	545,614,516	134,065,023	135,450,105	135,105,505	133,228,253	537,848,886	-7,765,630
CYFANSWM Y GOST - gan gynnwys costau Llywodraeth Cymru	136,403,629	545,614,516	135,309,739	135,684,999	135,740,399	135,469,699	542,204,836	-3,409,680

Ffynhonnell: Dyfynnwyd o Lywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) \(PDF 2.81MB\)](#) Tabl 69, diweddarwyd i gynnwys [cywiriadau Llywodraeth Cymru \(PDF 1.82MB\)](#), 7 Chwefror 2017

Yn Nhabl 2 rhoddir amcangyfrif o'r costau yn ôl sefydliad.

Tabl 2: Amcangyfrif o gostau'r opsiwn a ffefrir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (y Bil) yn ôl sefydliad (2016-17 i 2020-21)

	Gwneud dim Cyfanswm y 4 bl. - gwneud dim		Cyflwyno'r opsiwn a ffefrir					Y gwahaniaeth yn y gost
	2016-17		2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	Cyfanswm y 4 bl. - yr opsiwn a ffefrir	
Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol								
Cyfanswm costau rheolaidd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol	36,286,360	145,145,440	33,326,460	33,326,460	33,326,460	33,326,460	133,305,840	-11,839,600
Cyfanswm costau pontio gwasanaethau addysg awdurdodau lleol			18,200	0	0	0	18,200	18,200
Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol								
Cyfanswm costau rheolaidd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol	6,212,438	24,849,752	6,212,438	6,212,438	6,212,438	6,212,438	24,849,752	0
Cyfanswm costau pontio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol			118,700	0	0	0	118,700	118,700
Ysgolion prif ffrwd								
Cyfanswm ysgolion prif ffrwd - costau rheolaidd	73,366,400	293,465,600	73,366,400	73,366,400	73,366,400	73,366,400	293,465,600	0
Cyfanswm ysgolion prif ffrwd - costau pontio			1,503,170	3,006,340	3,006,340	1,503,170	9,019,020	9,019,020
Ysgolion arbennig								
Cyfanswm - costau rheolaidd	938,700	3,754,800	938,700	938,700	938,700	938,700	3,754,800	0
Cyfanswm - costau pontio			0	0	0	0	0	0
Byrddau iechyd lleol								
Cyfanswm BILII - costau rheolaidd	3,815,593	15,262,372	4,021,993	4,021,993	4,021,993	4,021,993	16,087,972	825,600
Cyfanswm BILII - costau pontio			330	0	0	0	330	330
Gyrfa Cymru								
Cyfanswm Gyrfa Cymru - costau rheolaidd	763,400	3,053,600	274,800	274,800	274,800	274,800	1,099,200	-1,954,400
Cyfanswm Gyrfa Cymru - costau pontio			0	0	0	0	0	0
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)								
Cyfanswm TAAAC - costau rheolaidd	152,000	608,000	136,700	136,700	136,700	136,700	546,800	-61,200
Cyfanswm TAAAC - costau pontio			101,000	0	0	0	0	101,000
Sefydliadau addysg bellach								
Cyfanswm sefydliadau AB - costau rheolaidd	746,700	2,986,800	769,900	769,900	769,900	769,900	3,079,600	92,800
Cyfanswm sefydliadau AB - costau pontio			12,177	24,353	24,353	12,177	73,060	73,060
Estyn								
Cyfanswm Estyn - costau rheolaidd	463,250	1,853,000	506,250	506,250	506,250	506,250	2,025,000	172,000
Cyfanswm Estyn - costau pontio			53,300	0	0	0	53,300	53,300
Unedau Cyfeirio Disgyblion								
Cyfanswm Unedau Cyfeirio Disgyblion - costau rheolaidd	1,217,900	4,871,600	1,217,900	1,217,900	1,217,900	1,217,900	4,871,600	0
Cyfanswm Unedau Cyfeirio Disgyblion - costau pontio			27,207	54,413	54,413	27,207	163,240	163,240
Llywodraeth Cymru								
Cyfanswm Llywodraeth Cymru - costau rheolaidd	12,440,888	49,763,552	12,441,058	12,441,058	12,441,058	12,441,058	49,764,232	680
Cyfanswm Llywodraeth Cymru - costau pontio			2,097,140	2,472,400	2,527,800	2,257,100	9,354,440	9,354,440
Cyfanswm costau rheolaidd	136,403,629	545,614,516	133,212,599	133,212,599	133,212,599	133,212,599	532,850,396	-12,764,120
Cyfanswm costau pontio			2,396,424	3,897,506	3,752,906	1,907,654	11,954,490	11,954,490
Costau pontio net			852,424	2,237,506	1,892,906	15,654	4,998,490	4,998,490
Cyfanswm y costau - heb gynnwys grantiau a chostau pontio Llywodraeth Cymru	136,403,629	545,614,516	134,065,023	135,450,105	135,105,505	133,228,253	537,848,886	-7,765,630
Cyfanswm y costau - gan gynnwys costau Llywodraeth Cymru	136,403,629	545,614,516	135,309,739	135,684,999	135,740,399	135,469,699	542,204,836	-3,409,680

Ffynhonnell: Dyfynnwyd o Lywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#) (PDF 2.81MB) Tabl 70, diweddarwyd i gynnwys [cywiriadau Llywodraeth Cymru](#) (PDF 1.82MB), 7 Chwefror 2017

7. Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r bennod hon yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd. Nid yw rhifau'r adrannau (na'r cyfeiriadau at y Gweinidog) wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2 na'r newid Gweinidog. Dylid darllen fersiwn ddiweddaraf y Bil felly er mwyn cadarnhau'r cyfeiriadau at rifau adrannau.

Mae adran 4 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol**. Yn y Cod hwnnw y bydd y rhan fwyaf o'r manylion am y modd y caiff asesiadau a phenderfyniadau am ddarpariaeth eu gwneud, er mai yn y Bil y bydd y fframwaith cyffredinol. Rhoddodd **Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o'r Cod (PDF 2.95MB)** i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 14 Chwefror 2017, ac fe'i cyhoeddwyd ganddo i gynorthwyo rhanddeiliaid i gyfrannu at broses graffu Cyfnod 1.

Unig ddiben y Cod drafft a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yw bod yn ddogfen wybodaeth i gynorthwyo'r broses o graffu ar y Bil. Mae Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, wedi pwysleisio bod 'gwaith yn dal i gael ei wneud ar y drafft cyffredol' a'i fod wedi trefnu i'r Cod drafft fod ar gael **'at ddibenion enghreifftiol yn unig'** er mwyn helpu gyda'r broses o graffu ar y Bil. Cyn belled ag y mae'r Gweinidog yn y cwestiwn, nid oes bwriad i graffu ar y Cod drafft ei hun ar hyn o bryd.

Os caiff y Bil yn cael ei basio gan y Cynulliad, ac os caiff Gydsyniad Brenhinol wedi hynny, mae adran 5 yn **ei gwneud yn ofynnol fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori** ar fersiwn mwy ffurfiol o'r Cod. Disgwylir y bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar y fersiwn ddrafft yr ymgynghorwyd arni ar yr adeg briodol. Ar ôl ymgynghori, byddai Llywodraeth Cymru yn gosod y Cod gerbron y Cynulliad, ac wedyn byddai'n destyn y gweithdrefnau ar gyfer craffu ar **is-ddeddfwriaeth**. O dan y Bil yn ei ffurf bresennol, byddai hyn yn unol â'r **weithdrefn negyddol**.

Wedi iddo gael ei wneud, bydd y Cod **yn disodli Cod Ymarfer AAA presennol Cymru (2002)**. Mae **lefel uwch o ddarpariaeth orfodol a gofynion absoliwt** yn nodwedd arbennig o'r Cod ADY drafft, tra bod y Cod AAA presennol yn darparu cyngor ac arweiniad ymarferol yn bennaf. Ar hyn o bryd, yr cyrff perthnasol fydd yn penderfynu sut yn union y maent yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn sgil [yn hytrach na glynu'n gaeth at] y Cod.

Ym mharagraff 1.4 o'r Cod drafft rhestrir 'personau perthnasol' y mae'n **rhaid** (pwyslais Llywodraeth Cymru) iddynt roi sylw iddo wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf. **Rhaid i bersonau perthnasol (cyrff perthnasol) gydymffurfio ag unrhyw ofynion** a bennir yn y Cod a **rhaid iddynt beidio â gwneud unrhyw beth sydd wedi ei wahardd** gan y Cod. Hefyd, lle bo'r Cod yn darparu canllawiau ar arferion da, dylai'r cyrff perthnasol eu dilyn oni bai eu bod yn gallu dangos bod cyfiawnhad iddynt beidio â'u dilyn.

Os methir â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion yn y Cod, gallai hynny arwain at Dribiwnlys Addysg Cymru yn gwrthdroi penderfyniad, cwyn lwyddiannus i Weinidogion Cymru, arfer pwerau ymyrryd awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru, cwyno i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu gais llwyddiannus am adolygiad barnwrol (paragraff 1.8).

Mae adran 56 yn gosod **dyletswydd ar awdurdodau lleol i barhau i adolygu'r** ddarpariaeth ADY yn ei ardal. Mae paragraff 2.38 o'r Cod drafft yn egluro nad yw hyn wedi'i fwriadu i fod yn ddull o fesur a monitro ansawdd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol unigol. Yn hytrach, dylai awdurdodau lleol adolygu'r trefniadau i benderfynu **a yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gyffredinol sydd ar gael yn eu hardal yn diwallu'r angen cyffredinol**. Dylai adolygiadau awdurdodau lleol ategu eu penderfyniadau strategol ynglŷn ag a oes ganddynt y math priodol o ddarpariaeth a'r gallu i ddiwallu anghenion eu poblogaeth ag ADY (paragraff 2.39).

Darpariaethau perthnasol o fewn y Bil

Mae'r Cod drafft yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol sy'n ychwanegol i'r rhai yn darpariaethau canlynol yn y Bil:

- Darparu **cyngor a gwybodaeth** (adran 7);
- Gwneud trefniadau ar gyfer **osgoi a datrys anghytundebau** (adran 61); a
- Gwneud trefniadau ar gyfer **gwasanaethau eirioli annibynnol** (adran 62).

Mae'r Cod drafft yn gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, ac awdurdodau lleol sy'n ychwanegol at y rhai sydd yn y Bil yn y meysydd a ganlyn:

- **Penderfynu** a oes gan blentyn neu berson ifanc **ADY** (adrannau 9 ac 11);
- **Llunio CDUau** (adrannau 10 a 12);
- **Adolygu a diwygio CDUau** (adrannau 21-22); a
- **Rhoi'r gorau** i gynnal **CDUau** (adran 29).

Mae'r Cod drafft yn nodi bod yn rhaid i gyrff perthnasol weithredu mewn ffordd benodol mewn perthynas ag adrannau eraill o fewn y Bil ar wahân i'r rhai a restrir uchod, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â gweithio amlasiantaeth. Fodd bynnag, y rhai a restrir uchod yw'r prif adrannau y mae'r Cod drafft yn gymwys iddynt.

Wyth egwyddor y Cod drafft

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y Cod drafft wedi'i lunio gan roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae paragraff 2.3 yn rhestru wyth egwyddor arall y seiliwyd y Cod arnynt:

- dylid mynd ati ar y **cyfle cyntaf posibl** i nodi ADY a threfnu ymyriadau;
- dylai pawb sy'n darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY gydweithio **er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc**;
- **dylai trefniadau trosglwyddo gael eu cynllunio ymlaen llaw**, gan ystyried cynorthwyo pobl ifanc i drosglwyddo i fyd oedolion;
- dylai safbwyntiau, dymuniadau a **theimladau'r plentyn**, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc fod yn **ganolog i'r holl broses o wneud penderfyniadau**;
- dylid sicrhau bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn gallu **cyfranogi mor llawn â phosibl** yn y broses o wneud penderfyniadau;
- dylai diwallu anghenion dysgwyr ag ADY fod yn rhan o **ddull gweithredu ysgol gyfan** i wella'r ysgol;
- mae'n **rhaid** i ddysgwyr dderbyn cymorth i gyfranogi mor llawn â phosibl mewn **addysg brif ffrwd** a'r Cwricwlwm Cenedlaethol pan fydd hynny'n ymarferol; ac
- os oes angen **darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg** ar blentyn neu berson ifanc, mae'n **rhaid** rhoi pob cam rhesymol ar waith i'w darparu. [mae'r pwyslais mewn print trwm yn y Cod drafft]

Rôl y Cydlynnydd ADY

Mae pennod 5 y Cod drafft yn darparu canllawiau a rhagnodiad dros dro ar gyfer rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynnydd ADY). Mae paragraff 5.4 yn pwysleisio natur strategol ac uwch y swydd:

*Y Cydlynnydd ADY yw'r unigolyn sy'n mynd ati ar lefel strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu. **Dylid ystyried y rôl hon yn rôl strategol** yn y lleoliad addysg, gan roi'r un statws iddi â rolau penaethiaid, prifathrawon, dirprwy benaethiaid ac ati. Felly, dylai'r Cydlynnydd ADY fod yn **aelod o'r uwch dîm arwain** neu fod â llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arwain.*

Yn ôl y Cod drafft, bydd angen i'r Cydlynnydd ADY '**gymryd rhan weithgar mewn penderfyniadau yn ymwneud â chyllidebau** ac adnoddau i helpu i gynllunio darpariaeth briodol.' (paragraff 5.5). 'Ni ddisgwylir i'r Cydlynnydd ADY gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gynorthwyo pob dysgwr ag ADY' gan mai ei **rôl yw cydlynu yn hytrach na rhoi darpariaeth ar waith**. Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am hynny o hyd (paragraff 5.6).

Bydd manylion y gofynion cymhwyster yn cael eu pennu yn y rheoliadau. Yn ôl y Cod drafft **bydd gan Gydlynwyr ADY 'gymwysterau sylweddol** ynghyd ag arbenigedd i ymdrin ag amrywiaeth eang o ADY'. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol bydd angen cymhwyster ar lefel gradd Meistr (paragraff 3.37).

Ym mharagraff 5.13 o'r Cod drafft mae rhestr o bwyntiau bwled sy'n pennu rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Cydlynnydd ADY.

Diffinio ADY

Ym mhennod 6 o'r Cod drafft, mae canllawiau a rhagnodiad ar sut i ddehongli a chymhwyso diffiniad y Bil o ADY, sy'n egluro ei bod yn **broses dau gam**. Yn gyntaf, a oes gan y dysgwr **anhawster neu anabledd** a gwmpeisir gan y diffiniad yn adran 2. Yn ail, a oes angen **darpariaeth ddysgu ychwanegol** arno fel y'i diffinnir gan adran 3? Os felly, bernir fod gan y dysgwr ADY.

Ni fydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar ddysgwyr os gellir mynd i'r afael â'u hanghenion drwy addysgu gwahaniaethol (paragraff 6.12). Ni ddylid defnyddio'r prosesau sy'n ymwneud ag ADY i wneud iawn am ddiffyg addysgu o ansawdd da ac addysg deilwredig (paragraff 6.24).

Mae'r Cod drafft yn dweud y dylai ymarferwyr sy'n ymwneud â nodi ADY gyfeirio'n ôl at y diffiniad o ADY yn adran 2 o'r Bil, rhoi sylw i'r canllawiau ym mhennod 6 o'r Cod drafft, a chymhwyso'r naill a'r llall i amgylchiadau unigol y dysgwr.

Ymhlith yr ystyriaethau eraill y mae'r Cod drafft yn dweud y dylid eu hystyried wrth nodi ADY, law yn llaw â'r diffiniad a'r canllawiau, mae'r canlynol:

- **Anableddau** (paragraffau 6.29-6.31): Nid oes unrhyw gydberthyniad uniongyrchol rhwng bod ag anabledd a bod ag ADY. Fodd bynnag, bydd natur rhai anableddau yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd gan y dysgwr ADY. Y ffactor allweddol yw **a yw'r anabledd yn atal neu yn rhwystro'r** dysgwr rhag defnyddio addysgu neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol.
- **Y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol** (paragraffau 6.32-6.35): Mae'r Cod drafft yn ategu adran 2(4) o'r Bil sy'n datgan nad oes gan berson anhawster a/neu anabledd dysgu dim ond am fod yr iaith y mae'n cael ei haddysgu ynddi yn wahanol i'r iaith y mae'n ei siarad gartref. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar y disgyblion hyn, ond nid o reidrwydd mewn perthynas ag unrhyw ADY. Dylai ymarferwyr ystyried yn ofalus a yw unrhyw anhawster neu ddiffyg cynnydd yn deillio o'r her o ddysgu'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol neu a yw'n seiliedig ar ADY.

– **Mwy Abl a Thalentog** (paragraffau 6.36-6.37): Mae'r term 'mwy abl a thalentog' yn cwmpasu dysgwyr sy'n fwy abl ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â'r rhai sy'n dangos talent mewn un maes penodol neu fwy. Yn ô y Cod drafft, ni ddylid dod i'r casgliad bod gan blant a phobl ifanc ADY ar sail eu gallu neu eu talent uwch yn unig. Yn lle hynny, dylid eu cynorthwyo i gyrraedd eu llawn botensial drwy ddysgu gwahaniaethol. Fodd bynnag, dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol y gall dysgwr fod yn fwy abl a thalentog mewn un agwedd ar ei ddysgu, ond yn dal i gael anhawster sylweddol fwy o ran dysgu agweddau eraill. Gallent, felly, ddal i fod ag ADY yn hyn o beth.

Mae paragraff 6.43 o'r Cod drafft yn rhestru'r rhai **a all helpu** i nodi/asesu ADY. Nid yw'n datgan bod yn rhaid ymgynghori â hwy, heblaw Seicolegwyr Addysg y cyfeirir atynt mewn rhannau eraill o'r Cod drafft.

Anghenion gofal iechyd

Mae paragraffau 6.38-6.42 o'r Cod drafft yn rhoi arweiniad ar sut y dylai ymarferwyr ystyried anghenion gofal iechyd/cyflwr meddygol dysgwr fel rhan o'r trafodaethau ynghylch nodi ADY.

Yn ôl y Cod **ni fydd ADY gan bob dysgwr sydd ag anghenion meddygol neu ofal iechyd** a chyfeirir at becyn 'Gofal Iechyd Parhaus y GIG, sef pecyn gofal sy'n cael ei ddarparu gan y GIG ar gyfer unigolion sydd ag anghenion cymhleth sy'n seiliedig ar iechyd yn bennaf.' O dan y diffiniad o ADY a sefydlwyd yn y Bil, **ni fydd cyflyrau meddygol, er enghraifft diabetes, epilepsi, neu anaffylacsis, yn cael eu hystyried yn ADY** os nad ydynt yn achosi **anhawster sylweddol fwy o ran dysgu**, neu os nad ydynt yn gyfystyr ag **anabledd sydd o reidrwydd yn effeithio ar fynediad** at yr addysg neu'r hyfforddiant sydd ar gael yn gyffredinol.

Fodd bynnag, mae'r Cod drafft yn cydnabod y **gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu disgyblion i ddysgu ac y dylent fod yn ffactor i'w hystyried** wrth benderfynu a oes gan ddysgwr ADY:

*Mewn rhai achosion, gall anghenion gofal iechyd/cyflyrau meddygol gael **effaith sylweddol** ar brofiadau'r plentyn neu'r person ifanc a'r ffordd y mae'n **gweithredu mewn ysgol neu leoliad addysg bellach**. Gall yr effaith **fod yn un uniongyrchol** yn yr ystyr y gall gofal iechyd/cyflwr meddygol effeithio ar alluoedd gwybyddol y plentyn neu'r person ifanc, ei alluoedd corfforol, ei ymddygiad neu ei gyflwr emosiynol. Hefyd, gall yr effaith **fod yn un anuniongyrchol**, er enghraifft drwy amharu ar allu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn addysg yn sgil effeithiau annymunol triniaeth neu drwy'r effeithiau seicolegol y gall salwch difrifol neu gronig neu anabledd eu cael ar blentyn neu berson ifanc a'i deulu. [fy mhwyslais i] (paragraff 6.40)*

Mae'r Cod drafft yn dangos pan fydd gan ddysgwr ADY a'i fod hefyd angen gofal iechyd, y gellid uno'r broses o gynllunio darpariaeth ar gyfer y naill a'r llall:

*Mae ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol yn gallu llunio, adolygu neu ddiwygio CDU ar yr un pryd â'u bod nhw, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall yn ymwneud â'r unigolyn. Hefyd, gall yr **awdurdod lleol gynnwys y cynllun hwnnw yn y CDU**. Mae hyn yn sicrhau, er enghraifft, bod modd cynllunio a chyflwyno darpariaeth mewn ffordd **gydgysylltiedig** ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd â **chynllun gofal iechyd unigol neu gynllun gofal iechyd parhaus a CDU**: dylid adolygu'r CDU a'r gofal iechyd unigol neu'r pecyn gofal iechyd parhaus ar yr un pryd, gan **integreiddio cynlluniau a/neu ddarpariaeth lle bo hynny'n briodol**. [fy mhwyslais i] (paragraff 6.42)*

Casgliad y Cod drafft, felly, yw y **byddai anghenion gofal iechyd ddim ond yn cael eu hystyried yng nghyd-destun penderfynu a oes gan ddysgwr ADY**. Nid yw'r Cod drafft yn darparu ar gyfer cymorth gydag anghenion gofal iechyd lle nad oes pryderon bod gan ddysgwr ADY.

Nodi / Asesu ADY

Mae pennod 7 o'r Cod drafft yn cynnwys tair is-bennod: nodi ADY ymhlith plant a phobl ifanc sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, nodi ADY mewn ysgolion, a nodi ADY mewn sefydliadau addysg bellach. Mae llawer o'r canllawiau hyn yn **gyffredin** i bob sector.

Mae paragraff 7.1.3 yn ailadrodd y cyngor ar gyfer ymarferwyr perthnasol y dylent gyfeirio'n ôl at y diffiniad o ADY yn adran 2 o'r Bil, rhoi sylw i'r canllawiau ym mhennod 6 o'r Cod drafft, a chymhwyso'r naill a'r llall i amgylchiadau unigol y dysgwr. Fel yn achos y Cod presennol, sonnir bod **nodi ADY yn gynnar yn bwysig** i effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

Mae'r Cod drafft yn rhestru rhai **arsylwadau a allai dynnu sylw ymarferydd** sy'n gweithio gyda phlant neu bobl ifanc y gallai fod gan ddysgwr ADY (paragraffau 7.1.11 a 7.1.12 ar gyfer cyn-ysgol, 7.2.15 a 7.2.16 ar gyfer ysgol a 7.3.12 a 7.3.13 ar gyfer addysg bellach). Mae'r rhain fel arfer yr un fath ar gyfer pob un o'r tri grŵp oedran ac yn debyg i'r hyn sydd yn y Cod Ymarfer AAA presennol.

Cyn-ysgol

Mae'r Cod drafft yn trafod **pwysigrwydd gweithwyr iechyd proffesiynol** o ran nodi ADY mewn plant ifanc nad ydynt wedi dechrau'r ysgol. Mae adran 57 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd roi gwybod i rieni plentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol eu bod yn amau fod ganddo ADY ac mae ganddynt **bŵer disgrisiynol i ddod â hynny i sylw'r awdurdod lleol** os yw'n credu bod hyn er lles pennaf y plentyn. Mae paragraff 7.1.30 yn rhestru rhai enghreifftiau o adegau pan fyddai er lles pennaf y plentyn i gorff iechyd hysbysu awdurdod lleol. **Nid yw'r Cod drafft yn rhoi unrhyw enghreifftiau o adegau pan na fyddai hynny er budd gorau'r plentyn.**

Ysgolion

Mae'r Cod drafft y dweud y dylai ysgolion 'weithredu mewn ffordd glir, gadarn a thryloyw wrth nodi ac ymateb i ADY' (paragraff 7.2.1) a bod â **pholisi ysgol** yn dangos sut y byddant yn gwneud hyn (paragraff 7.2.5).

Dylai ysgolion **asesu cyrhaeddiad pob plentyn pan gaiff ei dderbyn**, a ddylai 'sicrhau bod unrhyw ADY posibl yn cael eu nodi'n gynnar' (paragraff 7.2.18). Mae paragraffau 7.2.19-7.2.23 yn disgrifio'r hyn y gall ysgolion ei ddefnyddio i fesur cynnydd. Dylai'r rhain lywio asesiadau i ganfod a yw'r cynnydd:

- yn **sylweddol is** na chynnydd eu cyfoedion, gan gychwyn o'r un llinell sylfaen;
- yn methu cyrraedd neu ragori ar **gyfradd gynnydd flaenorol** y plentyn neu'r person ifanc; neu
- yn methu â chau, neu'n lledaenu, y **bwlech cyrhaeddiad** rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion. [fy mhwyslais i]

Yn gyntaf, dylai athrawon dosbarth geisio mynd i'r afael â chynnydd sy'n llai na'r disgwyl drwy **addysgu gwahaniaethol** (Para 7.2.24) ac ystyried hysbysu Cydlynnydd ADY yr ysgol os bydd eu pryderon y parhau. 'Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen gofyn am gyngor allanol hefyd' (paragraff 7.2.26)

Sefydliadau addysg bellach

Fel yn achos ysgolion, dylai sefydliadau addysg bellach 'weithredu mewn ffordd glir, gadarn a thryloyw er mwyn nodi ac ymateb i ADY' (paragraff 7.3.2) a bod â **pholisi clir** ar waith (paragraff 7.3.5).

Dylai sefydliadau addysg bellach **asesu cyrhaeddiad eu myfyrwyr wrth eu derbyn** a gwneud defnydd llawn o unrhyw wybodaeth a roddir iddynt gan ysgolion, gan gynnwys unrhyw CDU a drosglwyddir iddynt (paragraff 7.3.15).

Bydd ADY y rhan fwyaf o ddysgwyr eisoes wedi cael eu nodi erbyn yr adeg y byddant yn dechrau addysg bellach. Yr hyn sy'n wynebu sefydliadau addysg bellach, felly, yw **rheoli'r pontio o ysgolion** yn hytrach na nodi ADY (paragraff 7.3.6). Fodd bynnag, mae'r Cod drafft yn dweud y dylent fod yn effro i'r ffaith y gall ADY newid neu ddatblygu ar unrhyw adeg (paragraff 7.3.7).

Fel yn y canllawiau ar gyfer ysgolion, mae'r Cod drafft yn dweud y dylid mynd i'r afael â phroblemau yn y lle cyntaf drwy **addysgu gwahaniaethol** (paragraff 7.3.20) ac y dylai staff ystyried hysbysu Cydlynnydd ADY y coleg os bydd eu pryderon yn parhau. 'Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen gofyn am gyngor allanol hefyd' (paragraff 7.3.22).

Un gwahaniaeth pwysig mewn perthynas â dysgwyr 16 oed a throsodd yw y gallant **wrthod cymorth** gydag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddynt.⁸ Mae paragraff 7.3.24 yn cyfeirio at y ddyletswydd o dan adran 6 o'r Bil i roi sylw i farn y plentyn neu'r person ifanc ac mae'n dweud fod **angen i sefydliadau addysg bellach ganfod a chofnodi barn pobl ifanc** ar y materion hyn, yn enwedig os nad ydynt yn cydsynio i asesiad neu ddarpariaeth a gynigir iddynt. Mewn man arall (paragraff 3.17), mae'r Cod drafft yn dweud fod y gofyniad i gael cydsyniad person ifanc 'yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth fod gan y person ifanc y galluedd i roi ei gydsyniad'. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer amgylchiadau lle mae corff llywodraethu sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan berson ifanc y galluedd i ddeall y pwnc dan sylw (adrannau 74-76).

Rôl seicolegwyr addysg

Mae'r Cod drafft yn pennu rôl benodol ar gyfer seicolegwyr addysg o ran **cynorthwyo i benderfynu** pa un a ddylai CDU fod yn **gyfrifoldeb yr ysgol neu'r awdurdod lleol**:

- Cyn atgyfeirio achos dysgwr i'r awdurdod lleol, dylai'r ysgol ystyried ymgynghori â seicolegydd addysg oherwydd ei bod yn credu fod y mater y tu hwnt i'w gallu. (paragraff 9.2.10).
- Ar ôl derbyn atgyfeiriad o ysgol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgysylltu â seicolegydd addysg.
- Os yw awdurdod lleol yn ystyried cymryd cyfrifoldeb am CDU dysgwr, mae'n rhaid iddo ymgynghori â seicolegydd addysg.

Ym mis Rhagfyr 2016, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau** yn rhoi trosolwg o gyfrifoldebau seicolegwyr addysg a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Os penderfynir nad oes gan ddysgwr ADY

Mae pennod 8 o'r Cod drafft yn ymdrin â'r goblygiadau a'r camau gweithredu sy'n deillio o benderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.

Mae'n rhaid i ysgol neu sefydliad addysg bellach **hysbysu'r** plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc dros oedran ysgol gorfodol yn swyddogol am ei benderfyniad a'r **rhesymau** dros y penderfyniad (adran 9(4) o'r Bil).

Mae paragraffau 8.5 ac 8.23, yn y drefn honno, yn amlinellu beth y mae'n **rhaid i'r hysbysiad ei gynnwys**. Rhaid i hysbysiad ysgol gynnwys manylion ynghylch sut i gael mynediad at drefniadau'r

⁸Yn adran 86 dywedir mai "person ifanc" yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed. Mae adrannau 9(d) ac 11(d) yn galluogi pobl ifanc i wrthod asesiad ar gyfer ADY, ac mae adrannau 10(2)(c) a 12(3) yn eu galluogi i wrthod CDU.

awdurdod lleol ar gyfer **gwybodaeth a chyngor**, yn ogystal â'r hawl i **ofyn i'r awdurdod lleol yn ailystyried** penderfyniad yr ysgol. Hefyd, dylai hysbysiad yr ysgol ddweud sut y mae'r ysgol yn bwriadu helpu'r dysgwr (er nad oes ganddo ADY) a all gynnwys agweddau ar addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

Mae'r gofynion ar gyfer hysbysiad gan sefydliad addysg bellach yn debyg, er bod yn rhaid i'r person ifanc gael gwybod am ei **hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru**. Mae hyn oherwydd na ellir gofyn i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad gan sefydliad addysg bellach, a'r cam nesaf ar lwybr yr apel yw mynd yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys. Yn yr un modd, rhaid i hysbysiad gan awdurdod lleol nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY gynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

Cyfrifoldeb am CDU

Mae'r Bil yn gosod y cyfrifoldeb am asesu ADY dysgwr a chreu unrhyw CDU dilynol ar gyrrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach, oni bai bod corff llywodraethu **yn methu â phennu hyn yn ddigonol** neu **na fyddai'n rhesymol** iddo wneud hynny (adran 10 (2) o'r Bil).

Mae is-benodau 9.1, 9.2 a 9.3 yn rhoi arweiniad ynghylch paratoi CDU, ac yn rhagnodi dyletswyddau ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu.

Mae'r Cod drafft yn rhoi rhagor o fanylion am y gwahaniaeth rhwng cynlluniau datblygu unigol y disgwylir iddynt fod yn gyfrifoldeb cyrrff llywodraethu a'r rhai sy'n debygol o fod yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol. Ym mharagraffau 1.20 a 1.22 dywedir y bydd cyrrff llywodraethu yn gyfrifol 'yn uniongyrchol am ddiwallu anghenion y rhan fwyaf' o ddysgwyr ag ADY ac y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol 'yn uniongyrchol am ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â'r **anghenion mwyaf cymhleth a/neu ddifrifol**'.

Ym mharagraffau 9.2.9 a 9.3.8, ceir sefyllfaoedd eraill pryd y gallai ysgol neu sefydliad addysg bellach benderfynu na fyddai'n rhesymol sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol, yn dibynnu ar amgylchiadau'r ysgol/coleg (hynny yw lleoliad, maint, cyllideb ac ati). Yr enghreifftiau yw pan fydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i'r plentyn neu'r person ifanc:

- os oes ganddo **gyflwr llai cyffredin / cyflwr prin**⁹ y mae angen arbenigedd ar ei gyfer na all yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ei ddarparu¹⁰ yn rhesymol;
- os yw angen **cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol** yn ogystal â'r cyngor a'r cymorth sy'n gallu cael eu trefnu'n rhesymol gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach;
- **os oes angen cyfarpar arno** sydd ond yn gallu cael ei ddefnyddio gan un person ifanc / na ellir ei aildefnyddio / sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach; neu
- os oes **angen cymorth dwys iawn bob dydd arno** na ellir ei ariannu neu ei sicrhau yn rhesymol gan gyllideb yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach. [fy mhwylais i]

Amserlenni

Mae'r Cod drafft (paragraffau 10.28-10.51) yn cynnwys rhai amserlenni posibl ar gyfer asesiadau a deilliannau yn sgil atgyfeiriadau. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod yr amserlenni hyn wedi'u datblygu yn dilyn mewnbwn gan randdeiliaid ond bod y **trafodaethau yn parhau ac nad ydynt**

⁹Nid yw'r geiriau 'cyflwr prin' wedi'u cynnwys yn yr adran sy'n ymwneud â sefydliadau addysg bellach (paragraff 9.3.8), er ei fod wedi ei gynnwys yn yr adran ar ysgolion (paragraff 9.2.9). Amryfusedd yw hyn efallai yn hytrach nag ymgais fwriadol i wahaniaethu.

¹⁰Nid yw'r gair 'rhesymol' wedi'i gynnwys yn yr adran sy'n ymwneud ag ysgolion (paragraff 9.2.9), er ei fod wedi ei gynnwys yn yr adran ar sefydliadau addysg bellach. Amryfusedd yw hyn efallai yn hytrach nag ymgais fwriadol i wahaniaethu.

wedi'u pennu eto. Byddant yn orfodol yn y fersiwn derfynol o'r Cod. Yn y fersiwn drafft, yr amserlenni bras yw:

- Pan fydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i **ysgol neu goleg**, mae ganddynt naill ai **2 wythnos i atgyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol** (oherwydd bod yr ADY yn ddigon cymhleth) **neu 7 wythnos i asesu** ADY y dysgwr a llunio CDU os ydynt yn credu bod hyn yn angenrheidiol.
- Os bydd **awdurdod lleol yn cael atgyfeiriad**, gan gynnwys o ysgol neu goleg, mae ganddynt **2 wythnos** i benderfynu a yw'r achos o fewn gallu'r ysgol neu'r coleg a'u **cyfarwyddo i lunio CDU neu 10 wythnos** ar ôl yr atgyfeiriad i **lunio CDU ei hun** os yw'n credu bod hyn yn angenrheidiol. Mae gan ysgol bum wythnos i lunio CDU, os caiff ei chyfarwyddo i wneud hynny gan yr awdurdod lleol.
- Canlyniad yr amserlenni hyn yw na fydd **rhaidd i deuluoedd aros mwy na 12 wythnos am ganlyniad eu cais am asesiad a CDU. Cymharer hyn â 26 wythnos o dan y fframwaith AAA presennol.**

Cynnwys y cynlluniau datblygu unigol

Ym mhennod 11 mae manylion am yr hyn y mae'n rhaid i gynlluniau datblygu unigol ei gynnwys. Nid yw'n mynd mor bell â darparu templed, ond mae'n agos iawn at wneud hynny. Yn ôl Llywodraeth Cymru **'mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i dempled safonol ar gyfer CDU** ynghyd â'r posibilrwydd o ddefnyddio CDU electronig.'

Yn ôl y Cod Drafft, bwriedir i'r CDU fod yn ddogfen hyblyg, ond mae'n bwysig fod **pob CDU yn cynnwys elfennau allweddol penodol**. Rhaid i'r CDU gofnodi pa ADY sydd gan ddysgwr, a pha ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arno.

Y **penawdau a'r cynnwys gorfodol mewn CDUau**, sy'n ofynnol gan y Cod drafft, yw:

- Cyfrifoldeb am y CDU;
- Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol;
- Safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc;
- Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU;
- Disgrifiad o ADY y plentyn neu'r person ifanc;
- Disgrifiad a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc;
- Deilliannau arfaethedig;
- Adran i gofnodi unrhyw drefniadau trosglwyddo;
- Rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed;
- Amserlen o ddigwyddiadau allweddol;
- Llofnod y plentyn neu'r person ifanc a/neu ei riant (rhieni), yn ogystal â'r person sy'n gyfrifol am gydlynw'r CDU.

Gwaith amlasiantaeth

Yn bennaf, mae pennod 12 o'r Cod drafft yn darparu **canllawiau i sefydliadau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd** yng nghyd-destun paratoi CDU. Mae hefyd yn gosod rhai gofynion pellach yn ychwanegol at y rhai yn y Bil. Prif ddarpariaethau'r Bil y mae'r bennod hon yn gymwys iddynt yw:

- Adrannau 18 ac 19, sy'n rhoi **dyletswyddau ar gyrff iechyd** mewn perthynas â **gwneud darpariaeth**;
- Adran 58, sy'n rhoi **dyletswydd ar sefydliadau i helpu a rhannu gwybodaeth** gydag awdurdodau lleol;
- Aran 55, sy'n gosod **dyletswydd ar fyrdau iechyd i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig**.

Gellid dadlau fod y bennod ar waith amlasiantaeth yn cynnwys amryw gyfeiriad at 'dylai' a braidd ddim at 'rhaid'. I bob golwg, **canllawiau yn bennaf yn hytrach na rheidrwydd** yw'r bennod hon o'r Cod drafft.

Mae paragraffau 12.43-12.61 yn cynnwys gwybodaeth am **rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)**. Dylai'r SACDA **oruchwyllo** gwasanaethau iechyd y Byrddau Iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei **swyddogaeth i gydweithio** â gwasanaethau eraill i hyrwyddo deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ag ADY;
- Gweithredu mewn ffordd strategol i **hyrwyddo ADY yn y Bwrdd Iechyd** a hybu dulliau newydd o weithio a rhannu arferion gorau;
- Sicrhau **dull strategol a chyson** o nodi, asesu, cynllunio, cyflwyno a monitro CDUau;
- Rheoli a **monitro cydymffurfiaeth** â dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd ym maes ADY; a
- **Mesur llwyddiant** ymyriadau'r Bwrdd Iechyd.

Trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer system decach a mwy tryloyw

Mae'r Pennod 18 o'r Cod drafft yn cynnwys rhagor o fanylion am y modd y dylai awdurdodau lleol arfer eu dyletswyddau mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwneud trefniadau ar gyfer **osgoi a datrys anghytundebau**, gan gynnwys sicrhau cymorth gan ffynhonnell annibynnol (adran 61 o'r Bil);
- Gwneud trefniadau ar gyfer **darparu eiriolaeth annibynnol** i blant a phobl ifanc (adran 62)

Osgoi a datrys anghytundebau

Ym mharagraff 18.4 o'r Cod drafft, rhestrir nifer o **safonau** y disgwylir i awdurdodau lleol eu cyrraedd wrth wneud eu trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau.

Rhaid bod gan staff awdurdodau lleol sy'n darparu'r trefniadau hyn ddealltwriaeth fanwl o'r system ADY. Yn ogystal, **ni ddylent fod ag unrhyw fuddiant personol** yn neilliant unrhyw anghytundebau posibl (paragraff 18.5). Dylai'r cymorth annibynnol y mae gofyn i awdurdodau lleol ei drefnu ddod o ffynhonnell profiadol, gwybodus a chymwys heb fod â buddiant personol yn yr achos nac **unrhyw gysylltiad blaenorol** â'r dysgwr (paragraff 18.29).

Os bydd dysgwr a/neu ei deulu yn penderfynu peidio â defnyddio'r trefniadau datrys anghytundebau a wnaed gan eu hawdurdod lleol, nid yw hynny'n effeithio ar eu **hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru**. Yn ôl y Cod drafft:

Ni fydd y Tribiwnlys yn dod i unrhyw gasgliad penodol yn seiliedig ar y ffaith nad yw'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc y mae'r anghytundeb yn berthnasol iddo wedi defnyddio'r trefniadau datrys anghytundebau. (paragraff 18.40)

Gwasanaethau eirioli annibynnol

O dan adran 62 o'r Bil, rhaid i awdurdodau lleol **atgyfeirio unrhyw blentyn neu berson ifanc** y mae'n gyfrifol amdano sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i **ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol**. Mae paragraff 18.45 o'r Cod drafft yn pennu ffyrdd y gall eiriolydd helpu plentyn neu berson ifanc yn y sefyllfa honno. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau eirioli yn **briodol ac o safon addas**. Ym mharagraff 18.46, rhestrir yr hyn ddylai awdurdod lleol ei wneud i sicrhau hyn.

Mae'r Cod drafft yn pwysleisio **pwysigrwydd y gwasanaethau eirioli**, gan ddweud:

...dylai gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth gael eu hariannu a'u rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau annibyniaeth ar y sefydliad comisiynu.

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn sicrhau annibyniaeth drwy gomisiynu gwasanaethau eirioli gan ddarparwr allanol. Mae Cod drafft yn cynghori, er mwyn cynnal annibyniaeth ac uniondeb y trefniadau eirioli, y dylai awdurdodau lleol sy'n comisiynu a darparwyr allanol sicrhau bod unrhyw faterion her a gwrthdaro yn **dryloyw a chadarn** ac yn cael eu nodi a'u trafod yn y cytundeb lefel gwasanaeth.

Cyngor a gwybodaeth

O dan adran 7 o'r Bil, rhaid i awdurdodau lleol drefnu bod gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY yn cael eu darparu i blant, pobl ifanc ac eraill. Ym mharagraff 4.9 o'r Cod rhoddir canllawiau ynghylch yr effaith y dylai'r wybodaeth a'r cyngor ei chael, yn ogystal â bod yn 'gywir' ac yn 'ddiduedd'.

Yn wahanol i ddatrys anghytundebau a darparu gwasanaethau eirioli, **nid oes rhaid i'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir fod yn annibynnol**. Fodd bynnag, lle mae awdurdodau lleol yn penderfynu comisiynu cyngor a gwybodaeth gan ddarparwyr allanol, mae'r Cod drafft yn nodi rhai **egwyddorion comisiynu** (Paragraff 4.19). Er enghraifft, bydd awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am safon gyffredinol y gwasanaeth a dylent sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd cadarn.

Penodau eraill yn y Cod drafft

Mae'r Cod drafft yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr agweddau canlynol ar y Bil:

- Ym mhennod 13 mae arweiniad i awdurdodau lleol ar **leoliadau dysgwyr** ag ADY, gan gynnwys y ddyletswydd yn adran 45 i ffafrio darpariaeth brif ffrwd.
- Mae pennod 14 yn ymdrin ag **adolygu a diwygio CDU**, gan gynnwys y gofyniad bod ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn adolygu CDU bob 12 mis (adrannau 21-22 o'r Bil).
- Mae pennod 15 yn ymwneud â **pheidio â chynnal CDU** (adran 29).
- Mae pennod 16 yn cyfeirio at **drosoglwyddo CDU** rhwng ysgolion neu rhwng awdurdodau lleol.
- Mae pennod 17 yn ymwneud â threfniadau ar gyfer **trosoglwyddo a pharatoi ar gyfer byd oedolion**.
- Ym mhennod 19 mae gwybodaeth am **apelau i'r Tribiwnlys**. Yn ôl y Cod drafft mae ei benderfyniadau yn 'gyfreithiol rywml' (ond nid ar gyrrff iechyd). Bydd rheoliadau yn rhagnodi amserlenni ar gyfer cyflwyno apelau, ynghyd â darpariaethau ar gyfer sicrhau bod cyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yn cydymffurfio â gorchmynion.

- Ym mhennod 20 mae arweiniad ar grwpiau o blant a phobl ifanc mewn **amgylchiadau penodol**, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid, plant a addysgir gartref neu sy'n derbyn eu haddysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

8. Gweithredu

Pwysleisiodd Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd¹¹, fod y **Bil yn rhan o raglen ehangach** i drawsnewid y system ADY. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod o blaid gweithredu'r fframwaith statudol newydd yn raddol, ochr yn ochr â'r gwaith o gyflawni'r **Rhaglen Trawsnewid ADY** ehangach er mwyn cynorthwyo'r partneriaid cyflawni i symud yn effeithiol o'r system bresennol i'r system newydd.

Sefydlwyd **Grŵp Gweithredu Strategol ar ADY** i gynllunio ar gyfer trosglwyddo ac mae **Cronfa Arloesi ar gyfer ADY** wedi'i sefydlu i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddatblygu a gwella trefniadau gwaith amlasiantaeth i helpu i ddarparu'r system newydd.

Ymgynghoriad ynghylch y trefniadau pontio

Rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar y dewisiadau ar gyfer gweithredu'r system newydd**. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cymryd yn ganiataol y bydd yr holl newydd-ddyfodiaid i'r system ADY, ar ôl cychwyn darpariaethau'r Ddeddf, yn cael CDU o dan y trefniadau newydd. Y cwestiwn, felly, yw sut y bydd dysgwyr sydd eisoes â datganiadau neu sy'n cael cymorth o dan Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn cael eu trosglwyddo i'r system newydd. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dewisiadau ar gyfer **naill ai dull un dyddiad** lle byddai pawb yn symud i'r system newydd ar yr un dyddiad, neu **fodelau amrywiol ar gyfer cyflwyno'r system newydd gam wrth gam**.

Roedd yr opsiynau ar gyfer cyflwyno cam wrth gam yn cynnwys sawl *tranche* sy'n seiliedig ar y canlynol:

- y math o ddarpariaeth y mae dysgwyr yn ei chael ar hyn o bryd (hynny yw plant sydd â datganiadau yn gyntaf);
- eu hoedran a'u lleoliad (cynradd, uwchradd, neu ôl-16 ac ati);
- cyfnodau allweddol addysg;
- yn ôl awdurdod lleol (gyda'r awdurdodau hynny a fu'n rhan o'r cynlluniau peilot blaenorol ac sydd eisoes yn gyfarwydd ag agweddau ar y trefniadau ar gyfer CDU yn trosglwyddo'n gyntaf).

Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai, ar ôl yr ymgynghoriad, yn **datblygu cynlluniau a threfniadau manwl** ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd.

Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth **gynhadledd Fforwm Polisi Cymru** ym mis Gorffennaf 2017 eu bod yn disgwyl cyhoeddi crynodeb o'r ymgynghoriad yn nhymor yr hydref ochr yn ochr â datganiad Gweinidogol yn nodi'r ffordd arfaethedig ymlaen. Dywedwyd bod mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn ffafrio dull gweithredu fesul cam yn hytrach na dull un dyddiad a rhagnodiad clir dros weithredu. Y ddau opsiwn a oedd fwyaf poblogaidd yn ystod yr ymgynghoriad oedd cyflwyno CDU ar gyfer dysgwyr sydd eisoes ar gynlluniau statudol yn gyntaf, neu i wneud hynny yn ôl pwyntiau trosglwyddo allweddol (cyfnodau allweddol ac ati).

¹¹ Mae cyfeiriadau yn y papur hwn at y 'Gweinidog' yn cyfeirio at Alun Davies, sef Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r Aelod a oedd yn Gyfrifol am y Bil trwy Gyfnodau 1 a 2 o'r broses ddeddfwriaethol ac yn ystod Cyfnod 3 nes cyflwyno'r newidiadau i'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2017

Ychwanegodd swyddogion o Lywodraeth Cymru fod y system ADY newydd yn debygol o gael ei chyflwyno gyntaf ym mis Medi 2019:

In terms of timescales for implementation, we're looking to Royal Assent in probably January now. So following that, the Bill requires us to consult formally on the Code and on the regulations that underpin the Bill. So there'll be a process of consultation and then us making any amendments following feedback to that consultation, then both of those sets of things have to be laid before the Assembly for them to be formally approved. We think that will take the vast majority of 2018 and so then we'd be looking to implement probably in September 2019. We want to start from the beginning of the next academic year, so that would give us the early part of 2019 to really rollout all of that training and awareness raising on the final set of the legislative package of Act, code and regulations.

Cyllid ychwanegol

Ar 8 Chwefror 2017 **cyhoeddodd y Gweinidog becyn o £20 miliwn** i gefnogi dysgwyr ag ADY **yn ystod pum mlynedd nesaf**, gan gynnwys helpu'r sector addysg i drosglwyddo i'r system newydd, annog sefydliadau i weithio'n agosach â'i gilydd, datblygu'r gweithlu a chodi ymwybyddiaeth o ADY.

Mewn **llythyr gan y Gweinidog at y Pwyllgor Cyllid, dyddiedig 8 Mawrth 2017**, (PDF 362KB) dangosir bod £10.1 miliwn o'r £20 miliwn yn cael ei ariannu o'r £100 miliwn a addawyd yn ystod y Cynulliad hwn ar gyfer codi safonau ysgolion a bod y gweddill yn seiliedig ar y ddarpariaeth gyllidebol bresennol ar gyfer ADY a rhagdybiaethau ynghylch dyraniadau cyllidebol yn y dyfodol. Dywdodd Alun Davies y byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid i roi rhagor o wybodaeth am gyllid Trawsnewid ADY.

9. Gwaith craffu Cyfnod 1

Ar 13 Rhagfyr 2016, gwnaeth Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd¹², **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn**, y diwrnod ar ôl cyflwyno'r *Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)*.

Cyfeiriwyd y Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gynnal y gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a chyhoeddodd ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis Mai 2017. Bu'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd yn craffu ar y Bil gan gyflwyno adroddiad arno fel yr oedd yn berthnasol i gylch gwaith eu pwyllgor hwy. Ceir lincs i adroddiadau'r Pwyllgorau ac ymatebion Llywodraeth Cymru isod.

- **Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** (PDF 1.96MB); **Ymateb Llywodraeth Cymru** (PDF 415KB)
- **Adroddiad y Pwyllgor Cyllid** (PDF 370KB); **Ymateb Llywodraeth Cymru** (PDF 342KB)
- **Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** (PDF 1.13MB); **Ymateb Llywodraeth Cymru** (PDF 339KB)

Croesawodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg egwyddorion cyffredinol y Bil ac argymhellodd fod y Cynulliad yn cefnogi'r ddeddfwriaeth yng Nghyfnod 1, gan ei alluogi i symud ymlaen i Gyfnod 2 pan ellid gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, gwnaeth adroddiad y Pwyllgor 48 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, â'r nod o gryfhau'r ddeddfwriaeth a chynigion y Gweinidog i ddiwygio'r drefn

¹² Mae cyfeiriadau yn y papur hwn at y 'Gweinidog' yn cyfeirio at Alun Davies, sef Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r Aelod a oedd yn Gyfrifol am y Bil trwy Gyfnodau 1 a 2 o'r broses ddeddfwriaethol ac yn ystod Cyfnod 3 nes cyflwyno'r newidiadau i'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2017

Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac ymdrin â meysydd o bryder a nodwyd gan randdeiliaid ac aelodau'r Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor:

Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn dangos y bydd sawl her yn codi wrth weithredu'r Bil. Ni fydd pasio'r ddeddfwriaeth ar ei ben ei hun yn ddigon i fynd i'r afael â'r problemau a'r heriau sylfaenol dyfnach a berthyn i'r system bresennol. Mae'r dystiolaeth a gafwyd hefyd yn amlygu llawer o bryderon am sut y gwnaiff y fframwaith newydd weithio yn ymarferol. (paragraff 34)

Tynnodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sylw at yr angen am adnoddau digonol, a threfniadau digonol ar gyfer hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu i gefnogi gweithrediad y Bil a Rhaglen Drawsnewid ehangach Llywodraeth Cymru ym maes ADY.

Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion yn y meysydd a ganlyn. Roedd rhai o'r rhain yn galw am welliannau i'r Bil ei hun, eraill am ragor o fanylion yn y Cod, tra bod nifer yn codi materion i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn fwy cyffredinol wrth ymdrin â'r diwygiadau. (Mae'r rhifau mewn cromfachau yn dynodi nifer yr argymhellion ym mhob adran o'r adroddiad.)

- Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth (2)
- Y diffiniad o ADY (2)
- Amserlenni ar gyfer asesiadau a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) (1)
- Cyfrifoldeb am CDU (6)
- Templed ar gyfer CDU (2)
- Cydlynwyr ADY (4)
- Y blynyddoedd cynnar (3)
- Ôl-16 (1)
- Cydweithio a chynnwys y sector ieuchyd (4)
- Gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth (5)
- Hawliau plant (2)
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg (5)
- Y Tribiwnlys (5)
- Goblygiadau ariannol ac adnoddau (3)
- Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth (3)
- Anghenion meddygol mewn ysgolion (2)

Un diwrnod ar ôl y dyddiad terfynol ar gyfer adroddiad Cyfnod 1 a chyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, cyhoeddodd y Gweinidog lythyr yn amlinellu newidiadau (PDF 241KB) i amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o ran costau'r Bil a'r arian y byddid yn ei arbed. Roedd y newidiadau hyn yn sylweddol a chytunodd y Gweinidog i gyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn cynnig y penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil. Mae angen penderfyniad o'r fath i ofyn i'r Cynulliad roi cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru wario'r arian angenrheidiol i weithredu'r ddeddfwriaeth. Fel rheol, caiff y penderfyniad ariannol ei gymeradwyo ar yr un diwrnod â'r egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1, sef 8 Mehefin 2017 yn achos y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fodd bynnag, oherwydd pryderon

ynghylch y newidiadau yn amcangyfrifon ariannol Llywodraeth Cymru, cytunodd y Gweinidog i ohirio cyn cynnig y penderfyniad ariannol.

10. Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig

Mae'r bennod hon yn diweddarau'r wybodaeth a geir ym Mhennod 6 o'r papur hwn ac mae'n gyfredol ym mis Medi 2017 pan osododd Llywodraeth Cymru ei **Hasesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig** (PDF 1.55MB) ar gyfer y Bil fel y'i cyflwynwyd. Sylwer ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Esboniadol / Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn trafodion Cyfnod 3 i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2. Gallai hyn wneud rhagor o newidiadau i'r costau a'r manteision a amcangyfrifir ar gyfer y Bil.

Trosolwg

Yn ystod gwaith craffu ar y Bil gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yng Nghyfnod 1, amlygwyd materion yn ymwneud â rhai amcangyfrifon ariannol penodol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o gostau osgoi gwrthdaro a datrys anghydfodau a faint y byddai'r Bil yn ei arbed trwy leihau'r rhain.

Daeth yr **Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol**, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil ym mis Rhagfyr 2016, i'r casgliad y byddai cyflwyno'r Bil yn arwain at **arbed cyfanswm o £4.8 miliwn** (yn seiliedig ar gyfnod gweithredu pedair blynedd, rhwng 2017-18 a 2020-21). Ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd¹³ at y Pwyllgor Cyllid dair gwaith i roi gwybod am wallau a newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- **7 Chwefror 2017** (PDF 1.82MB): Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgorau cyn y gwaith Craffu Ariannol ar y Bil i hysbysu am nifer o gamgymeriadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a oedd yn lleihau'r arbedion parhaus sy'n gysylltiedig â'r Bil.
- **25 Mai 2017** (PDF 241KB): Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgorau yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar Gyfnod 1 i roi gwybod am newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Roedd y newidiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â datrys anghydfodau ac fe'u seiliwyd ar ganlyniadau trafodaethau Llywodraeth Cymru gyda SNAP Cymru. Roedd y llythyr hwn yn cynnwys y newidiadau a amlinellwyd yn y llythyr dyddiedig 7 Chwefror 2017 ac roedd yn golygu mai'r amcangyfrif bellach oedd y byddai'r Bil mewn gwirionedd yn **costio £8.3 miliwn** yn ystod y cyfnod gweithredu o bedair blynedd, yn hytrach nag yn arbed £4.8 miliwn yn ystod y cyfnod hwn.
- **8 Medi 2017** (PDF 279KB): Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgorau yn dilyn adolygiad mewnol ac allanol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gysylltiedig â llythyr y Gweinidog dyddiedig 25 Mai 2017. Roedd y llythyr yn cynnwys rhai addasiadau i ffigurau ac roedd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig sy'n cynnwys yr holl newidiadau blaenorol yn cyd-fynd ag ef. Mae'r diwygiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn lleihau **cost net y Bil, dros y cyfnod gweithredu, i £7.9 miliwn**.

Felly mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn gyfystyr â **chynnydd net o £12.7 miliwn yn y costau, o'i gymharu â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol**. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn rhagamcan y bydd y Bil yn arwain at **system ratnach** i ddarparu ar gyfer ADY, ac y bydd yn **arbed arian yn y tymor hir**.

¹³ Mae cyfeiriadau yn y papur hwn at y 'Gweinidog' yn cyfeirio at Alun Davies, sef Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r Aelod a oedd yn Gyfrifol am y Bil trwy Gyfnodau 1 a 2 o'r broses ddeddfwriaethol ac yn ystod Cyfnod 3 nes cyflwyno'r newidiadau i'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2017

Beth sydd wedi newid?

Mae costau cyffredinol y Bil yn cynnwys dwy elfen, sef costau/arbedion parhaus y system newydd ar ôl ei chyflwyno a'r costau gweithredu angenrheidiol wrth newid i ffyrdd newydd o weithio.

Amcangyfrifir y costau hyn dros bedair blynedd. Mae'r newidiadau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn dangos gostyngiad yn yr arbedion parhaus, yn hytrach na chynnydd yn y costau gweithredu. Mewn gwirionedd, mae'r amcangyfrif o gostau pontio'r Bil wedi gostwng yn yr asesiad diwygiedig o gymharu â'r asesiad gwreiddiol, o £12 miliwn i £11.5 miliwn. Fodd bynnag, mae'r arbedion parhaus net wedi gostwng o £14.2 miliwn i £3.7 miliwn.

Mae'r newidiadau yng nghostau cyffredinol y Bil yn ymwneud â nifer o elfennau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac [amlinellodd y Gweinidog rai ohonynt i'r Pwyllgor Cyllid](#) (PDF, 2MB) cyn iddo graffu ar oblygiadau ariannol y Bil ar **8 Chwefror 2017**. Mae'r newidiadau mwyaf yn ymwneud â'r costau ac arbedion yn yr adran o'r asesiad ar **'Anghytundebau ac apelau'**, ac amlinellwyd y rhain yn [llythyr y Gweinidog dyddiedig 25 Mai 2017](#) (PDF, 241KB) ar ôl y terfyn amser ar gyfer adrodd ar Gyfnod 1.

[Yn sgil tystiolaeth a ddarparwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 gan SNAP Cymru](#) (PDF 219KB), elusen sy'n darparu gwasanaethau datrys anghydfodau, gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i nifer yr achosion a'r gost fesul achos ar gyfartaledd a ddefnyddiwyd yn adran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar anghytundebau ac apelau. Dyma'r newidiadau i'r ddau ffigur:

- **Nifer yr achosion:** wedi gostwng o 1,533 i 758
- **Cost fesul achos ar gyfartaledd:** wedi gostwng o £2,000 i £875.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn dangos bellach fod £500 o'r gost gyfartalog o £875 ar gyfer achos yn gost i awdurdodau lleol, a bod y £375 sy'n weddill yn cael ei dalu gan ddarparwyr gwasanaethau datrys anghydfodau (drwy godi arian, cronfeydd wrth gefn elusennau ac oriau gwirfoddol). Defnyddir nifer yr achosion a'r gost gyfartalog fesul achos mewn nifer o'r cyfrifiadau yn yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae newidiadau i'r data craidd yn cael sgil-efeithiau ar gyfrifiadau eraill.

Mae Tablau 3 a 4 yn disodli Tablau 1 a 2 o bennod 6 y papur hwn, ac yn crynhoi amcangyfrif cyffredinol mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru o gost gyffredinol y Bil.

Digwyddiadau ar ôl cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig

Craffodd y Pwyllgor Cyllid ar y Gweinidog o safbwynt yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar **21 Medi 2017**, a chyhoeddodd adroddiad ar **29 Medi 2017** (PDF, 363KB). Er nad oedd yn cynnwys unrhyw argymhellion, roedd yr adroddiad yn nodi siom y Pwyllgor bod angen gwneud cynifer o newidiadau. Ar y llaw arall, roedd hefyd yn croesawu penderfyniad y Gweinidog i baratoi asesiad diwygiedig. Nododd y Pwyllgor Cyllid hefyd fod SNAP Cymru yn fodlon y ceir dealltwriaeth ar y cyd bellach o'r ffigurau a'r naratif diwygiedig.

Cynigiodd y Gweinidog y penderfyniad ariannol yn y [Cyfarfod Llawn ar 3 Hydref 2017](#), a chafodd ei gefnogi gan y Cynulliad. Roedd hyn yn galluogi'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i waredu'r gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 yn ei gyfarfodydd ar 4 Hydref a 12 Hydref.

Tabl 3: Amcangyfrif o gost y Bil yn ôl darpariaeth, 2016-17 hyd 2020-21

	Gwneud dim		Cyflwyno'r opsiwn a ffefrir				Cyfanswm 4 blynedd - opsiwn a ffefrir	Gwahaniaeth o ran cost
	2016-17	Cyfansm 4 blynedd - gwneud dim	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21		
Cynulluniau datblygu unigol								
Cost reolaidd	28,536,850	114,147,400	27,502,365	27,502,365	27,502,365	27,502,365	110,009,460	-4,137,940
Cost bontio			237,800	0	0	0	237,800	237,800
Datrys anghydfodau								
Cost reolaidd	0	0	0	0	0	0	0	0
Cost bontio			0	0	0	0	0	0
Darpariaeth addysgol arbennig ôl-16								
Cost reolaidd	19,249,734	76,998,936	19,116,114	19,116,114	19,116,114	19,116,114	76,464,456	-534,480
Cost bontio			9,200	0	0	0	9,200	9,200
Cofrestru ysgolion annibynnol								
Cost reolaidd	415,095	1,660,380	457,985	457,985	457,985	457,985	1,831,940	171,560
Cost bontio			53,300	0	0	0	53,300	53,300
Cydlynnydd ADY								
Cost reolaidd	67,022,700	268,090,800	67,022,700	67,022,700	67,022,700	67,022,700	268,090,800	0
Cost bontio			1,542,554	3,085,106	3,085,106	1,542,554	9,255,320	9,255,320
Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig								
Cost reolaidd	0	0	206,400	206,400	206,400	206,400	825,600	825,600
Cost bontio			330	0	0	0	330	330
Cyfanswm - costau rheolaidd	115,224,379	460,897,516	114,305,564	114,305,564	114,305,564	114,305,564	457,222,256	-3,675,260
Costau pontio Llywodraeth Cymru - costau			497,510	757,300	612,700	105,000	1,972,510	1,972,510
Cyfanswm - Costau pontio			2,340,694	3,842,406	3,697,806	1,647,554	11,528,460	11,528,460
Cyfanswm y Costau Cyffredinol	115,224,379	460,897,516	116,646,258	118,147,970	118,003,370	115,953,118	468,750,716	7,853,200

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), [Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig \(PDF 1.55MB\)](#), Tabl 69 (8 Medi 2017)

Tabl 4: Cost y Bil yn ôl sefydliad, 2016-17 hyd 2020-21

	Gwneud dim		Cyflwynio'r opsiwn a ffefrir					
	2016-17	Cyfanswm 4 blynedd - gwneud dim	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	Cyfanswm 4 blynedd - opsiwn a ffefri	Gwahaniaeth o ran cost
Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol								
Ongoing costs	15,111,310	60,445,240	14,423,625	14,423,625	14,423,625	14,423,625	57,694,500	-2,750,740
Transition costs			18,200	0	0	0	18,200	18,200
Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol								
Cost reolaidd	6,212,438	24,849,752	6,212,438	6,212,438	6,212,438	6,212,438	24,849,752	0
Cost bontio			118,700	0	0	0	118,700	118,700
Ysgolion prif ffrwd								
Cost reolaidd	73,366,400	293,465,600	73,366,400	73,366,400	73,366,400	73,366,400	293,465,600	0
Cost bontio			1,503,170	3,006,340	3,006,340	1,503,170	9,019,020	9,019,020
Ysgolion arbennig								
Cost reolaidd	938,700	3,754,800	938,700	938,700	938,700	938,700	3,754,800	0
Cost bontio			0	0	0	0	0	0
Byrddau iechyd lleol								
Cost reolaidd	3,815,593	15,262,372	4,021,993	4,021,993	4,021,993	4,021,993	16,087,972	825,600
Cost bontio			330	0	0	0	330	330
Gyrfa Cymru								
Cost reolaidd	763,400	3,053,600	274,800	274,800	274,800	274,800	1,099,200	-1,954,400
Cost bontio			0	0	0	0	0	0
TAAAC								
Cost reolaidd	152,000	608,000	136,700	136,700	136,700	136,700	546,800	-61,200
Cost bontio			100,900	0	0	0	100,900	100,900
Sefydliadau addysg bellach								
Cost reolaidd	742,500	2,970,000	765,700	765,700	765,700	765,700	3,062,800	92,800
Cost bontio			12,177	24,353	24,353	12,177	73,060	73,060
Estyn								
Cost reolaidd	463,250	1,853,000	506,250	506,250	506,250	506,250	2,025,000	172,000
Cost bontio			62,500	0	0	0	62,500	62,500
Unedau Cyfeirio Disgyblion								
Cost reolaidd	1,217,900	4,871,600	1,217,900	1,217,900	1,217,900	1,217,900	4,871,600	0
Cost bontio			27,207	54,413	54,413	27,207	163,240	163,240
Llywodraeth Cymru								
Cost reolaidd	12,440,888	49,763,552	12,441,058	12,441,058	12,441,058	12,441,058	49,764,232	680
Cost bontio			497,510	757,300	612,700	105,000	1,972,510	1,972,510
Cyfanswm y costau rheolaidd	115,224,379	460,897,516	114,305,564	114,305,564	114,305,564	114,305,564	457,222,256	-3,675,260
Cyfanswm y costau pontio			2,340,694	3,842,406	3,697,806	1,647,554	11,528,460	11,528,460
Costau Cyffredinol	115,224,379	460,897,516	116,646,258	118,147,970	118,003,370	115,953,118	468,750,716	7,853,200

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), *Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig* (PDF 1.55MB), Tabl 70 (8 Medi 2017)

11. Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2

Cyfnod 2 yw'r cyfnod pan mae'r Pwyllgor y cyfeiriwyd y ddeddfwriaeth ato i arwain y gwaith craffu yn gallu diwygio'r Bil. Mae'n dilyn y broses o graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn trafod a phleidleisio ar welliannau (sef 'gwaredu' gwelliannau) yng Nghyfnod 2 ar **4 Hydref** (PDF 185KB) a **12 Hydref 2017** (PDF 225KB).

Mae manylion y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 i'w gweld ar dudalen y ***Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar y we***.

Canlyniad y gwelliannau

Cyflwynwyd cyfanswm o 156 o welliannau. Roedd 4 o'r rhain yn welliannau i welliannau (27A, 84A, 140A, 145A).

- Cyflwynwyd 113 o welliannau gan Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd¹⁴.
- Cyflwynwyd 23 o welliannau gan Darren Millar AC.
- Cyflwynwyd 20 o welliannau gan Llyr Gruffydd AC.

O blith y 156 o welliannau a gyflwynwyd:

- Pasiwyd 116 o welliannau: 110 o rai'r Gweinidog, 5 o rai Darren Millar ac 1 o rai Llyr Gruffydd.
- Gwrthodwyd 22 o welliannau: 10 o rai Darren Millar, 10 o rai Llyr Gruffydd a 2 o rai'r Gweinidog.
- Methodd 2 welliant oherwydd y ffordd y pleidleisiwyd ar welliant blaenorol (99 a 100).
- Roedd 16 o welliannau na chawsant eu cynnig neu a dynnwyd yn ôl: 8 o rai Darren Millar (79, 40, 80, 81, 41, 42, 84, 152), 7 o rai Llyr Gruffydd (90, 93, 96, 84A, 101, 103, 104) ac 1 o rai'r Gweinidog (116). Digwyddodd hyn yn bennaf oherwydd bod esboniad neu ymrwymiad gan y Gweinidog wedi rhoi sicrwydd i'r Aelod a'u cyflwynodd.

Newidiadau a wnaed i'r Bil

Fel y nodwyd yn flaenorol, derbyniwyd 116 o welliannau, a wnaeth newidiadau i'r Bil. Cyhoeddwyd ***fersiwn wedi'i diweddarau o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2*** (PDF 381KB).

Ychwanegwyd chwe adran newydd i'r Bil (adrannau 34, 42, 58, 72, 83 a 84 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2). Mae hyn yn golygu bod y Bil bellach yn cynnwys 94 adran ac 1 Atodlen.

Roedd 33 o'r gwelliannau llwyddiannus yn welliannau canlyniadol a mân welliannau drafftio. Roedd y gwelliannau llwyddiannus eraill yn y grwpiau a ganlyn:

Y diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol

Roedd gwelliant 37 gan Darren Millar yn newid y diffiniad o ADY yn adran 2(1) o'r Bil fel ei fod yn cyfeirio'n benodol at y ffaith y gallai ADY unigolyn ddeillio o gyflwr meddygol. Dyma oedd un o'r materion a godwyd yn fwyaf cyffredin wrth graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1. Mae adran 2(1) o'r Bil wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:

¹⁴ Mae cyfeiriadau yn y papur hwn at y 'Gweinidog' yn cyfeirio at Alun Davies, sef Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r Aelod a oedd yn Gyfrifol am y Bil trwy Gyfnodau 1 a 2 o'r broses ddeddfwriaethol ac yn ystod Cyfnod 3 nes cyflwyno'r newidiadau i'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2017

Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Fodd bynnag, nid yw'r Bil diwygiedig yn golygu yr ystyrir y bydd ADY o reidrwydd gan bob dysgwr sydd â chyflwr meddygol, gan y bydd yn rhaid bodloni'r meini prawf yn adran 2(2) o hyd, sef bod y dysgwr yn cael:

- a) *anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu*
 - b) *os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p.15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.*
-

Mae gwelliant 37 yn ymateb i Argymhelliad 4 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Darpariaeth y blynyddoedd cynnar

Cafodd yr wyth gwelliant yn y grŵp hwn eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, a chafodd pob un ei basio. Wrth gyflwyno'r gwelliannau hyn, dywedodd y Gweinidog ei fod yn ymateb i argymhelliad 20 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a oedd yn galw am ddull mwy eglur o atgyfeirio ac ystyried achosion posibl o ADY rhwng gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol.

Mae gwelliant 1 yn galluogi'r Cod ADY i ddarparu canllawiau ar faterion ehangach yn ymwneud ag ADY y bydd yn rhaid i ddarparwyr meithrin nas cynhelir ond sy'n derbyn cyllid cyhoeddus roi sylw iddynt, nid dim ond ar swyddogaethau a arferir o dan y Bil.

Mae gwelliant 19 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi swyddog arweiniol ADY blynyddoedd cynnar i gydlynu swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phlant nad ydynt eto yn yr ysgol.

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol - Amserlenni ar gyfer asesiadau a Chynlluniau Datblygu Unigol

Mae gwelliant 22 gan y Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod bennu amserlenni y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gadw atynt wrth wneud penderfyniadau ynghylch ADY a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol. Mae hwn yn ymateb i Argymhelliad 5 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Is-ddeddfwriaeth: newidiadau i weithdrefnau

Roedd gwelliant 7 gan y Gweinidog yn newid gweithdrefn y Bil ar gyfer gwneud y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol, o'r weithdrefn negyddol (fel y'i cyflwynwyd) i'r weithdrefn gadarnhaol. Gwnaed hyn mewn ymateb i Argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac Argymhelliad 44 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Hefyd, cefnogwyd gwelliant 78 gan Darren Millar, sy'n cynnwys y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y rhestr o bobl y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â hwy ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft.

Roedd gwelliannau llwyddiannus eraill yn y grŵp hwn yn ymateb i argymhellion gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Gweithdrefnau ar gyfer diwygio Cynlluniau Datblygu Unigol

Roedd gwelliannau Llywodraeth Cymru yn y grŵp hwn yn ymdrin â dau faes, a chafodd pob un ei basio.

Eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mai diben y gyfres gyntaf o welliannau oedd mynd i'r afael ag amryw o anghysonderau ynghylch darpariaethau ar gyfer adolygu a diwygio Cynlluniau Datblygu Unigol. Nod ei welliannau oedd sicrhau bod adolygiadau o Gynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu cynnal o fewn 12 mis i ganlyniad yr adolygiad neu'r diwygiad diwethaf, ac yr hysbysir rhieni yn briodol ynglŷn â chanlyniadau'r adolygiadau a'r diwygiadau ym mhob achos.

Mae'r gwelliannau eraill (gwelliant 15 yn bennaf) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol â rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau i roi'r gorau i gynnal Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer dysgwr.

Darpariaeth ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth

Ychwanegodd gwelliant 139 gan y Gweinidog adran newydd at y Bil (adran 42 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2) gan egluro nad yw nifer o ddyletswyddau cyffredinol yn y Bil yn gymwys pan fo'r person dan sylw yn cael ei gadw'n gaeth.

Cadarnhaodd y Gweinidog fod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â phobl a gedwir yn gaeth yn berthnasol i'r rhai a gedwir dan y system cyfiawnder troseddol ac nid y rhai a gedwir dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl. Dywedodd y byddai'r rhai olaf hyn yn dal i fod â hawl i gymorth ar gyfer ADY.

Roedd gwelliannau eraill yn diwygio darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud yn benodol â phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth (adrannau 37-41 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2).

Cyfrifoldeb am Gynlluniau Datblygu Unigol dysgwyr ôl-16

Roedd gwelliannau'r Gweinidog yn y grŵp hwn yn ymateb i Argymhelliad 7 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a oedd yn amlygu'r posibilrwydd na fyddai awdurdod lleol na sefydliad addysg bellach yn cymryd cyfrifoldeb am ADY dysgwr, heb unrhyw fodd i ddatrys yr anghydfod heblaw am droi at y Tribiwnlys.

Mae gwelliannau 110 a 128 yn galluogi awdurdod lleol i gyfeirio achos at Weinidogion Cymru pan nad yw sefydliad addysg bellach yn derbyn cyfrifoldeb am CDU, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu bod rhaid i sefydliad addysg bellach gynnal y cynllun hwnnw.

Y Gymraeg

Roedd gwelliant 140 gan y Gweinidog yn mewnosod dyletswydd newydd yn y Bil, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried pa mor ddigonol yw darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn eu hardal wrth gyflawni eu dyletswydd (o dan adran 56 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd, adran 59 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2) i adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Pasiodd y Pwyllgor welliant 140A gan Llyr Gruffydd i'w gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater pe byddai'r ddarpariaeth yn y Gymraeg yn annigonol.

Mae gwelliant 149 gan y Gweinidog yn mewnosod adran newydd (adran 83 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drefnu adolygiadau ac adroddiadau ar ddigonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg. Nodir bod yn rhaid i'r cyntaf o'r rhain ddigwydd o fewn pum mlynedd i'r dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth i rym. Mae gwelliant 150 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gael gwared ar y term 'cymryd pob cam rhesymol' o'r dyletswyddau ar gyrrff perthnasol i wneud darpariaeth yn Gymraeg lle gofynnir am hynny. Golyga hyn y

gallai Llywodraeth Cymru, ar ryw adeg yn y dyfodol, yn seiliedig ar ganlyniad adolygiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth, ei gwneud yn llwyr ofynnol i gyrff perthnasol sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg.

Mireinio'r darpariaethau presennol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys gwelliannau gan y Gweinidog i fireinio a gwella elfennau o'r modd y mae darpariaethau penodol sy'n ymwneud â Chynlluniau Datblygu Unigol yn gweithredu. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys sicrhau 'darpariaethau eraill' fel bwyd a llety, egluro cyfrifoldebau tuag at blant sy'n derbyn gofal y mae awdurdod lleol arall yn gofalu amdanynt, a sicrhau bod dyletswyddau penodol yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r sawl sy'n gyfrifol am CDU newid.

Dileu rhai pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae gwelliannau Llywodraeth Cymru yn y grŵp hwn yn ymateb i Argymhellad 1 gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai rhai pwerau gwneud rheoliadau gael eu dileu o'r Bil os na allai'r Gweinidog gyfiawnhau pam maent yn angenrheidiol.

Dyletswyddau cyrff y GIG

Mae gwelliant 26 gan y Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG, ar ôl ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY y dysgwr, hysbysu'r atgyfeiriwr a'r corff sy'n gyfrifol am unrhyw CDU ynglŷn â'i benderfyniad. Mae hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb lle mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG roi gwybod pan fo'n nodi triniaeth neu wasanaeth o'r fath, ond nid pan nad yw'n nodi un. Mae gwelliant 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amserlen, trwy reoliadau, y mae'n rhaid i gyrff y GIG gadw ati wrth hysbysu ynglŷn â'i benderfyniad. Cefnogodd y Pwyllgor welliant 27A gan Darren Millar fod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud y rheoliadau hyn yn pennu amserlen.

Roedd gwelliannau 28 a 29 gan y Gweinidog yn ymateb i Argymhellad 19 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yng Nghyfnod 1 trwy nodi bod yn rhaid i gyrff y GIG hysbysu'r awdurdod lleol os byddant yn credu y gallai fod gan blentyn iau nag oed ysgol gorfodol ADY, a'i bod er lles pennaf y plentyn iddynt wneud hynny. Cyn ei ddiwygio, roedd y Bil yn rhoi'r pŵer iddynt wneud hynny. Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn newid y ddyletswydd mewn deddfwriaeth bresennol yn bŵer dewisol, a daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod hyn yn groes i'r ysbryd o rannu gwybodaeth ac yn gwanhau'r sefyllfa bresennol. Diwygiwyd y Bil i fynd i'r afael â hyn

Y Tribiwnlys Addysg

Roedd gwelliant 145 gan y Gweinidog yn mewnosod adran newydd (adran 72 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2), â'r nod o ymateb i Argymhellion 38 a 39 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch diffyg pŵer y Tribiwnlys i roi cyfarwyddyd i gyrff iechyd.

Mae gwelliant 145 yn galluogi Tribiwnlys Addysg Cymru i'w gwneud yn ofynnol bellach i gyrff y GIG roi tystiolaeth ynghylch achos ADY. Bydd y Tribiwnlys hefyd yn gallu gwneud argymhellion i gyrff y GIG a rhaid i'r corff hwnnw roi adroddiad i'r Tribiwnlys yn nodi'r camau a gymerwyd mewn ymateb neu yn esbonio pam na fydd yn cymryd unrhyw gamau. I bob pwrpas, mae hyn yn galluogi'r Tribiwnlys i wneud argymhellion nad ydynt yn rhwymo cyrff y GIG, ond y mae'n rhaid i'r gyrff hynny gyflwyno adroddiad ffurfiol yn eu cylch. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth (adran 19(9) o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2) nad oes angen i gyrff y GIG gydymffurfio â gorchymyn gan y Tribiwnlys os nad ydynt yn cytuno i wneud hynny, yn dal i fod yn y Bil.

Mae gwelliant 146 gan y Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol gyflwyno adroddiad i'r Tribiwnlys o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y'i gwnaed yn ofynnol iddo gydymffurfio â gorchymyn, yn nodi a yw wedi cydymffurfio a sut y mae wedi gwneud hynny.

Ymrwymiadau gan y Gweinidog

Gwnaeth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd¹⁵ ymrwymiadau mewn cysylltiad â 15 o welliannau nad oeddynt yn welliannau'r Llywodraeth. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 4 gwelliant a wrthodwyd gan y Pwyllgor (gwelliannau 76, 77, 38 a 39).
- 11 o welliannau na chawsant eu cynnig neu a gafodd eu tynnu'n ôl (gwelliannau 40, 80, 81, 41, 42 ac 84 gan Darren Millar a gwelliannau 90, 93, 96, 84A a 101 gan Llyr Gruffydd).

Gellir crynhoi'r rhain trwy nodi eu bod yn berthnasol i'r **10 ymrwymiad** a ganlyn gan y Gweinidog.

Gwelliannau a wrthodwyd

- Roedd **gwelliant 76** gan Darren Millar yn gysylltiedig ag **Argymhelliad 11** yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'i nod oedd ceisio cynnwys darpariaeth yn y Bil bod yn rhaid i'r Cod gynnwys canllawiau ar ba bryd y dylai'r ALI neu'r corff llywodraethu geisio barn **seicolegydd addysgol**. Gwrthwynebodd y Gweinidog y gwelliant hwn (a chafodd ei wrthod gan y Pwyllgor yn ddiweddarach) er y dywedodd Alun Davies ei fod yn trafod y mater gyda Chymdeithas y Seicolegwyr Addysgol fel bod rôl y proffesiwn o ran darpariaeth ADY yn eglur. Dywedodd y Gweinidog y **byddai'r Cod yn cynnwys manylion** ynglŷn â hyn.
- Roedd **gwelliant 77** gan Darren Millar yn gysylltiedig ag **Argymhelliad 13** yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, a'i nod oedd ceisio cynnwys darpariaeth yn y Bil bod yn rhaid i'r Cod gynnwys canllawiau ar **ddarpariaeth cludiant**. Gwrthwynebodd y Gweinidog y gwelliant hwn (a chafodd ei wrthod gan y Pwyllgor yn ddiweddarach) ond dywedodd Alun Davies y byddai'r Llywodraeth yn **adolygu'r Canllawiau Gweithredol statudol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr i fynd i'r afael â phryderon** na roddir digon o ystyriaeth i ADY wrth ddarparu cludiant. Dywedodd y Gweinidog y **byddai'n cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 3** i gyflawni hyn trwy gyfrwng y Bil **os na allai wneud hynny trwy is-ddeddfwriaeth** (trwy adolygu'r canllawiau Teithio gan Ddysgwyr). Dywedodd hefyd ei bod yn bosibl na fyddai Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gyhoeddi'r canllawiau diwygiedig cyn Cyfnod 3 ond y byddai'n egluro a oedd yn bwriadu gwneud hynny cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau Cyfnod 3.
- Nod **gwelliannau 38 a 39** gan Darren Millar oedd gosod dyletswydd ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD)**. Gwrthwynebodd y Gweinidog y gwelliannau hyn (a chawsant eu gwrthod gan y Pwyllgor yn ddiweddarach) ond dywedodd y Gweinidog y byddai'n cyflwyno **gwelliant yng Nghyfnod 3 a fyddai'n gwireddu'r** safbwyntiau a fynegwyd ynglŷn â'r mater hwn, ac a fyddai'n ymateb i **Argymhellion 32 a 33** y Pwyllgor y dylai'r Bil gynnwys **dyletswydd ar gyrrff perthnasol** i roi sylw dyladwy i'r ddau gonfensiwn. Fodd bynnag, ni ddatganodd y Gweinidog yn benodol y byddai'r gwelliant yn cynnwys rhoi dyletswydd ar wyneb y Bil i roi sylw dyledus.

¹⁵ Mae cyfeiriadau yn y papur hwn at y 'Gweinidog' yn cyfeirio at Alun Davies, sef Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r Aelod a oedd yn Gyfrifol am y Bil trwy Gyfnodau 1 a 2 o'r broses ddeddfwriaethol ac yn ystod Cyfnod 3 nes cyflwyno'r newidiadau i'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2017

- Roedd **gwelliant 40** gan Darren Millar yn gysylltiedig ag **Argymhelliad 26** yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, a'i nod oedd ceisio diwygio'r Bil fel bod y **wybodaeth a'r cyngor** y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu i bobl ag ADY **yn annibynnol**. Dywedodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn gweithio gyda Darren Millar ar **welliant addas yng Nghyfnod 3** fel bod y Bil yn sicrhau bod yn rhaid i'r cyngor fod **yn ddiduedd ac yn wrthrychol**.
- Roedd **gwelliant 80** gan Darren Millar yn gysylltiedig ag **Argymhelliad 13** yn adroddiad y Pwyllgor, a'i nod oedd cynnwys **gwybodaeth am drefniadau ar gyfer darpariaeth cludiant** fel rhywbeth y mae'n rhaid ei gynnwys mewn CDU. Roedd y Gweinidog wedi rhoi ymrwymadau yn gynharach yn ymwneud â darpariaeth cludiant mewn ymateb i welliant 77 (gweler uchod ynghylch y gwelliannau a wrthodwyd).
- Nod **gwelliant 81** gan Darren Millar oedd diwygio'r Bil fel na fyddai dyletswyddau i asesu ar gyfer ADY a pharatoi Cynlluniau Dysgu Unigol yn berthnasol pe na bai'r dysgwr ond wedi cofrestru ar gwrs byr iawn. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ei gwneud **yn eglur yn y Cod** na fyddai'r **dyletswyddau'n** berthnasol oni bai eu bod yn **gymesur** â'r hyn a ddysgir.
- Nod **gwelliannau 90, 93 a 96** gan Llyr Gruffydd oedd diwygio adrannau 10, 12 a 18 o'r Bil sydd, fel y'u drafftwyd, yn rhoi dyletswyddau ar gyrff llywodraethu, awdurdodau lleol a chyrff ieched yn y drefn honno i benderfynu a ddylent wneud **darpariaeth yn Gymraeg**. Roedd Llyr yn poeni bod hyn **yn awgrymu mai Saesneg yw cyfrwng diofyn** y ddarpariaeth ac mai eithriad yw'r Gymraeg. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hyn yn wir ond y byddai'n ceisio dod i gytundeb ynglŷn â **gwelliant yng Nghyfnod 3** a fyddai'n mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ac yn gwneud hyn yn eglur.
- Nod **gwelliannau 41 a 42** gan Darren Millar oedd **cynnwys ysgolion arbennig** ymhlith y sefydliadau y mae'n ofynnol iddynt benodi **Cydlynnydd ADY** dynodedig. Roedd y gwelliannau wedi eu hysgogi'n rhannol gan bryderon na fyddai ysgolion arbennig yn gallu manteisio ar yr arian a'r gefnogaeth sydd ar gael o dan y rhaglen Trawsnewid ADY, heb fod ganddynt Gydlynnydd ADY. Cadarnhaodd y Gweinidog yn y Pwyllgor y byddent. **Ymrwymodd i gadarnhau hyn yn ysgrifenedig yn ogystal â rhoi manylion am yr arolwg** a gynhaliodd Llywodraeth Cymru gydag ysgolion arbennig yn ystod yr haf i ofyn a fyddent yn cefnogi'r gofyniad i benodi Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig.
- Nod **gwelliant 84** gan Darren Millar oedd ychwanegu adran newydd at y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau ieched gynnal **gwaith cynllunio'r gweithlu** mewn cysylltiad â darpariaeth ADY, gan gynnwys y gallu i wneud **darpariaeth yn Gymraeg**. Roedd **gwelliant 84A** gan Llyr Gruffydd yn ceisio ychwanegu is-adran ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol pennu **amserlen** i awdurdodau lleol a byrddau ieched, gan nodi erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid iddynt allu bodloni'r holl alw am ddarpariaeth ADY **cyfrwng Cymraeg**. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn cytuno â'r egwyddorion sylfaenol y tu ôl i'r gwelliannau ond ei fod yn fater ehangach, yn ymwneud â chynllunio gweithlu'r GIG, a bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth iddo. **Ymrwymodd i weithio gyda'r Aelodau perthnasol i geisio cael cytundeb ynglŷn â gwelliant yng Nghyfnod 3**.
- Nod **gwelliant 101** gan Llyr Gruffydd oedd mewnosod adran ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau ieched **asesu'r galw am ddarpariaeth ADY trwy gyfrwng y Gymraeg** yn eu hardal, eu **gallu** i fodloni'r galw hwn a'r **hyn y byddai ei angen** er mwyn iddynt allu gwneud hynny. Byddai'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol gosod amserlen gan nodi erbyn pryd y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau ieched allu bodloni'r galw. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n **ystyried sut y gellid cyflawni hyn yng Nghyfnod 3**.

12. Y camau nesaf

Yn dilyn Cyfnod 2, mae'r Bil bellach yng Nghyfnod 3, sef y cyfnod diwygio yn y Cyfarfod Llawn. Caiff unrhyw un o Aelodau'r Cynulliad gyflwyno gwelliant yn ystod Cyfnod 3. Bydd gwelliannau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru a'r Aelodau eraill yn cael eu cyhoeddi ar **dudalen y Bil ar y wefan**. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig sy'n adlewyrchu'r newidiadau yng Nghyfnod 2 cyn dadl Cyfnod 3 a'r bleidlais ar y gwelliannau.

Ar ôl Cyfnod 3, bydd y Bil yn destun pleidlais arall yng Nghyfnod 4, a rhagwelir y byddai Cydsyniad Brenhinol yn cael ei roi ddechrau 2018 pe byddai'r Bil yn cael ei gefnogi.

Yna bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar God Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ac yn cyflwyno unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen cyn y cyfnod pontio i'r trefniadau newydd.

Fel yr eglurir ym mhennod 8, nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyflwyno'r system ADY newydd tan fis Medi 2019, a byddai plant a phobl ifanc sydd eisoes yn cael cymorth Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu trosglwyddo yn raddol, fesul cam.

13. Geirfa Gymraeg

Termau penodol i'r Bil

- Additional Learning Needs (ALN) – **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- Additional Learning Needs Code – **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol**
- Additional Learning Needs Coordinator (ALNCo) – **Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynnydd ADY)**
- Additional learning provision (ALP) – **darpariaeth ddysgu ychwanegol**
- ALN Transformation Programme – **rhaglen i drawsnewid y system ADY**
- Case friend – **cyfaill achos**
- Designated Education Clinical Lead Officer (DECLO) – **Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig**
- Education Tribunal for Wales – **Tribiwnlys Addysg Cymru**
- Governing bodies – **cyrff llywodraethu**
- Independent advocacy services – **gwasanaethau eirioli annibynnol**
- Independent school – **ysgol annibynnol**
- Individual development plan (IDP) – **cynllun datblygu unigol (CDU)**
- Learning and Skills Plan – **Cynllun Dysgu a Sgiliau**
- Learning difficulty and/or disability (LDD) – **anhawster a / neu anabledd dysgu**
- Mainstream school – **ysgol prif ffrwd**
- Maintained school – **ysgol a gynhelir**
- Multi-agency – **aml-asiantaeth(ol)**
- Person-centred practice – **ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**
- Personal Education Plan – **cynllun addysg personol**
- Placement - **lleoliad**
- Relevant treatment or service – **triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol**
- Right of appeal – **hawl i apelio**
- School Action – **gweithredu gan yr ysgol**
- School Action Plus – **gweithredu gan yr ysgol a mwy**
- Special Educational Needs (SEN) – **Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**
- Special Educational Needs Coordinator (SENCo) – **Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**
- Special Educational Needs Tribunal for Wales (SENTW) – **Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)**
- Special education provision – **darpariaeth addysgol arbennig**
- Special school – **ysgol arbennig**
- Statements (of SEN) – **Datganiadau o (o AAA)**

- Third Sector Additional Needs Alliance – **Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)**
- Working draft Code – **cod drafft gweithredol**

Y tri amcan cyffredinol

- A unified legislative framework – **fframwaith deddfwriaethol unedig**
- An integrated, collaborative Process – **proses integredig a chydweithredol**
- A fair and transparent system – **system deg a thryloyw**

Y deg nod craidd

- The introduction of the term Additional Learning Needs (ALN) - **Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- A 0 to 25 age range – **ystod oedran 0 i 25**
- A unified plan – **cynllun unedig**
- Increased collaboration – **rhagor o gydweithredu**
- High aspirations and improved outcomes – **dyheadau uchel a gwell deilliannau**
- A simpler and less adversarial system - **system symlach sy'n achosi llai o wrthdaro**
- Avoiding disagreements and earlier disagreement resolution – **osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach**
- Clear and consistent rights of appeal – **hawliau clir a chyson i apelio**
- A mandatory Code – **cod gorfodol**
- Increased participation of children and young people – **cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy**

Termau cyffredinol

- Consultation - **ymgyngoriad**
- Draft Bill – **Bil drafft**
- Explanatory Memorandum - **Memorandwm Esboniadol**
- Further Education – **Addysg Bellach**
- Further Education Institution – **Sefydliad Addysg Bellach**
- Financial resolution – **Penderfyniad ariannol**
- Local Health Boards (LHB) – **Byrddau Iechyd Lleol (BILI)**
- NHS Trusts - **Ymddiriedolaethau'r GIG**
- Revenue Support Grant (RSG) – **Grant Cynnal Refeniw**
- Welsh Local Government Association (WLGA) – **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**
- General principles – **Egwyddorion cyffredinol**
- Government of Wales Act 2006 (GOWA) - **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**
- Guidance – **Canllawiau**
- Legislative competence – **Cymhwysedd deddfwriaethol**
- Legislative framework – **fframwaith deddfwriaethol**
- Looked after children – **plant sy'n derbyn gofal**
- Member in charge (of the Bill) – **Aelod sy'n gyfrifol (am y Bil)**
- Ongoing costs – **costau rheolaidd**
- Pre-legislative scrutiny – **crffu cyn y broses ddeddfu**
- Regulatory Impact Assessment (RIA) - **Asesiad Effaith Rheoleiddiol**
- Royal Assent – **Cydsyniad Brenhinol**
- Short title – **Enw byr**
- Stage 1 – **Cyfnod 1**
- Statutory framework – **fframwaith statudol**
- Statutory requirement – **Gofyniad statudol**
- Subordinate legislation – **is-ddeddfwriaeth**
- Transitional costs – **costau pontio**
- United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) - **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**
- White Paper – **Papur Gwyn**

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), cysylltwch â Michael Dauncey (michael.dauncey@cynulliad.cymru), y Gwasanaeth Ymchwil.